Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

# Cod Dioddefwyr newydd

## Ymgynghoriad ar God Dioddefwyr newydd

CP 1502-I

Llywodraeth y Deyrnas Unedig

Gweinyddiaeth Cyfiawnder

# Cod Dioddefwyr newydd

## Ymgynghoriad ar God Dioddefwyr newydd

Cyflwynwyd i'r Senedd gan y Gweinidog dros Ddioddefwyr a Thrais yn erbyn Menywod a Merched drwy Orchymyn Ei Fawrhydi

Chwefror 2026

CP 1502-I

**© Hawlfraint y Goron 2026**

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi ei drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint berthnasol i'w defnyddio.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents

Dylid anfon unrhyw ymholiad am y cyhoeddiad hwn atom yn victims.code@justice.gov.uk

ISBN 978-1-5286-5463-0

E03303104 02/26

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 40% o ffeibrau wedi'u hailgylchu

Argraffwyd yn y Deyrnas Unedig gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi

# Am yr ymgynghoriad hwn

| | |
|---|---|
| **At:** | Mae'r ymgynghoriad hwn yn agored i'r cyhoedd. Byddai gennym ddiddordeb arbennig mewn clywed gan ddioddefwyr troseddau, eu teuluoedd, sefydliadau a Chomisiynwyr sy'n cynrychioli dioddefwyr, sefydliadau sy'n ddarparwyr gwasanaeth o dan y Cod Dioddefwyr gan gynnwys yr heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron, GLITEF ac HMPPS, a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu. |
| **Hyd:** | O 05/02/2026 i 30/04/2026 |
| **Dylid anfon ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau i gael y papur mewn fformat gwahanol) i'r cyfeiriad canlynol:** | Victim and Witness Policy and Strategy Team<br>Ministry of Justice<br>102 Petty France<br>London SW1H 9AJ<br><br>E-bost: victims.code@justice.gov.uk |
| **Sut i ymateb:** | Anfonwch eich ymateb erbyn 30/04/2026 i'r cyfeiriad canlynol:<br><br>Victim and Witness Policy and Strategy Team<br>Ministry of Justice<br>102 Petty France<br>London SW1H 9AJ<br><br>E-bost: victims.code@justice.gov.uk |
| **Ffyrdd ychwanegol o roi eich barn:** | Byddwn hefyd yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau ledled Cymru a Lloegr yn ystod y cyfnod ymgynghori er mwyn ceisio barn pobl. |
| **Papur ymateb:** | Cyhoeddir ymateb i'r ymarfer ymgynghori hwn maes o law yn: https://consult.justice.gov.uk/ |

# Cynnwys

| | |
|---|---|
| Rhagair | 3 |
| Cyflwyniad | 5 |
| Pennod 1 – Asesu anghenion dioddefwyr yn effeithiol | 7 |
| Pennod 2 – Ymgysylltu â dioddefwyr sy’n blant | 12 |
| Pennod 3 – Ansawdd a phrydlondeb darparu gwybodaeth am achosion | 17 |
| Pennod 4 – Gwella’r ffordd y cynigir cyfleoedd i ddioddefwyr gymryd rhan | 20 |
| Pennod 5 – Helpu dioddefwyr i ddeall eu hawliau o dan y Cod | 27 |
| Pennod 6 – Gwybodaeth ychwanegol | 31 |
| Ystyriaethau cydraddoldeb | 36 |
| Amdanoch chi | 37 |
| Manylion cyswllt/Sut mae ymateb | 41 |
| Egwyddorion ymgynghori | 43 |

# Rhagair

Mae'r Llywodraeth hon yn cymryd camau llym ar droseddu, wedi'u sbarduno gan ein cenhadaeth graidd i wneud strydoedd y wlad hon yn fwy diogel.

Fel y Gweinidog dros Ddioddefwyr a Thrais yn erbyn Menywod a Merched, rwy'n gwybod pa mor hanfodol yw bod gan ddioddefwyr hyder yn y system cyfiawnder troseddol.

Ond rwy'n gwybod hefyd, i lawer, y gall y system deimlo'n gymhleth, yn llethol ac yn llawn straen - yn aml ar yr adeg waethaf yn eu bywydau. Mae angen gwybodaeth ac adnoddau clir ar ddioddefwyr i'w helpu i lywio drwy'r system.

Mae'r Llywodraeth hon eisoes yn bwrw ymlaen â rhaglen eang o ddiwygiadau i amddiffyn dioddefwyr a gwella eu profiad o'r system cyfiawnder troseddol.

Rwy'n falch o'n hymrwymiad i haneru trais yn erbyn menywod a merched dros y degawd nesaf, ac o'r camau pendant rydym wedi'u cymryd i leihau achosion Llys y Goron sydd wedi'u hôl-gronni. Ac eto mae gormod o ddioddefwyr yn dal i aros yn rhy hir am gyfiawnder.

Mae angen cyflawni gwaith diwygio llawn a sylfaenol. Roedd Adolygiad Annibynnol Syr Brian Leveson o'r Llysoedd Troseddol yn nodi cynigion ar gyfer newid unwaith mewn cenhedlaeth. Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi ei hymateb i ran gyntaf yr Adolygiad i roi dioddefwyr yn gyntaf. Bydd buddsoddiad o £550 miliwn yn cael ei roi i wasanaethau i ddioddefwyr dros y tair blynedd nesaf. Bydd y pecyn aml-flwyddyn hwn - y mwyaf a ddarparwyd erioed - yn golygu y gall elusennau a gwasanaethau cymorth gynnig achubiaeth hanfodol i ddioddefwyr wrth iddynt ddod o hyd i'r dewrder sydd ei angen i ddal troseddwyr i gyfrif.

Bydd ein Deddf Dedfrydu hefyd yn cryfhau tryloywder, gyda fframwaith rhyddhau cynhwysfawr newydd er mwyn cael mwy o eglurder ar draws penderfyniadau dedfrydu, mesurau i wella dealltwriaeth y cyhoedd o ddedfrydu, ac i gryfhau'r broses o gyfathrebu â dioddefwyr. A bydd ein Bil Dioddefwyr a Llysoedd yn atgyfnerthu pwerau'r Comisiynydd Dioddefwyr, er mwyn gallu mynd i'r afael â phroblemau systemig yn uniongyrchol.

Ond rhaid i'r broses ddiwygio hefyd ddechrau gyda'r hanfodion. Y Cod Dioddefwyr yw sylfaen hawliau dioddefwyr, sy'n nodi'r hyn y gall pob dioddefwr, beth bynnag fo'r drosedd, ei ddisgwyl gan y system. Er ei fod eisoes yn darparu llinell sylfaen dda - rydym am wneud yn siŵr ei fod mor glir, cryf a chefnogol â phosibl.

Yn yr ymgynghoriad hwn, rydym yn gofyn am farn ynghylch y canlynol:

- Disgwyliadau newydd ar gyfer asesiadau o anghenion fel bod asiantaethau'n asesu ac yn darparu'n effeithiol ar gyfer dioddefwyr;
- Fframwaith newydd i arwain ymgysylltiad uniongyrchol asiantaethau â dioddefwyr sy'n blant er mwyn rhoi mwy o arweiniad a dewis iddynt;
- Cyfathrebu'n dda ac yn brydlon â dioddefwyr, gan gynnwys archwilio dulliau arloesol o gyfathrebu i roi gwybodaeth sy'n ymwneud â'u hachos; a
- gwelliannau i sut a phryd y rhoddir cyfleoedd i ddioddefwyr gymryd rhan yn y broses gyfiawnder.

Bydd Cod cliriach yn rhoi sicrwydd i ddioddefwyr ynghylch beth i'w ddisgwyl, a bydd yn ein helpu i ddal asiantaethau cyfiawnder troseddol i gyfrif am y gwasanaeth maent yn ei ddarparu.

Dyma'r peth iawn i'w wneud i ddioddefwyr, ond yn fwy na hynny mae'n hanfodol i gyfiawnder ei hun. Pan fydd dioddefwyr yn cael eu cefnogi a'u hysbysu'n briodol, rydym yn eu grymuso i fwrw ymlaen â'u hachosion. Mae hynny'n golygu dod â mwy o droseddwyr o flaen eu gwell a chymunedau mwy diogel i bawb.

Rydym am glywed gan y rheini sydd â phrofiad uniongyrchol, y rheini sy'n eu cefnogi, yn ogystal â gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y system cyfiawnder troseddol. Gyda'n gilydd, gallwn lunio Cod Dioddefwyr sy'n cyflawni ar gyfer y rheini sydd ei angen fwyaf.

**Alex Davies-Jones AS**

Gweinidog dros Ddioddefwyr a Thrais yn erbyn Menywod a Merched

# Cyflwyniad

Mae'r Cod Dioddefwyr (y Cod) yn nodi'r hyn y gall dioddefwyr[1] ddisgwyl ei gael gan asiantaethau cyfiawnder troseddol. Mae'n darparu llinell sylfaen bwysig ar gyfer sut y gall y system cyfiawnder troseddol gefnogi dioddefwyr i ymgysylltu â'r broses cyfiawnder troseddol os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Mae Deddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024 (y Ddeddf) yn mynnu bod Cod newydd yn cael ei gyhoeddi gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae'r Ddeddf yn mynnu bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn paratoi drafft o'r Cod newydd ac yn ymgynghori ar hyn cyn cyflwyno'r Cod newydd yn y Senedd (yn amodol ar weithredu Adrannau 2-3 Deddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024).

Rhaid i'r Cod hwn adlewyrchu pedair egwyddor gyffredinol y Cod sydd wedi'u nodi yn Adran 2 o Ddeddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024), sef bod y dioddefwyr angen y canlynol:

- gwybodaeth i'w helpu i ddeall y broses cyfiawnder troseddol
- mynediad at wasanaethau i'w cefnogi (gan gynnwys, lle bo'n briodol, gwasanaethau arbenigol)
- y cyfle i leisio eu barn yn y broses cyfiawnder troseddol
- y gallu i herio penderfyniadau sy'n cael effaith uniongyrchol arnynt.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn adeiladu ar yr ymgysylltu helaeth rydym wedi'i gael â Seneddwyr a rhanddeiliaid, sydd wedi dweud wrthym fod sylfeini'r Cod presennol yn eithaf cywir, ond bod meysydd y gallwn eu cryfhau. Rydym am sicrhau bod y Cod yn gosod safonau sylfaenol clir y gellir eu cyflawni drwy'r system cyfiawnder troseddol er mwyn i ddioddefwyr gael y gefnogaeth a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt.

Mae'r ymgynghoriad yn gofyn yn benodol am sylwadau ar y meysydd canlynol yn y Cod drafft:

- Egwyddorion a hyfforddiant newydd fel bod asiantaethau'n asesu ac yn darparu'n briodol yr hyn sydd ei angen ar ddioddefwyr i'w cefnogi drwy'r broses cyfiawnder troseddol.
- Fframwaith newydd ar gyfer sut a phryd y dylai asiantaethau ymgysylltu'n uniongyrchol â dioddefwyr sy'n blant.

[1] Defnyddir y term 'dioddefwr' drwy gydol yr ymgynghoriad hwn gan mai dyma'r un derminoleg a ddefnyddir yn y Cod Dioddefwy(https://www.gov.uk/government/publications/the-code-of-practice-for-victims-of-crime), sy'n cydnabod bod y termau 'achwynydd' a 'goroeswr' yn aml yn cael eu defnyddio yn y system cyfiawnder troseddol.

- Y pwyntiau iawn i'w cyfathrebu â dioddefwyr am wybodaeth am achosion yn ystod y broses cyfiawnder troseddol.
- Gwella sut a phryd y rhoddir cyfleoedd i ddioddefwyr gyfranogi.

Rydym hefyd am wneud yn siŵr bod y Cod yn gweithio'n ymarferol, drwy wneud y canlynol:

- Sicrhau bod yr hawliau y gall dioddefwyr ddisgwyl eu cael dan y Cod yn glir fel y gellir dwyn asiantaethau i gyfrif am eu cyflawni.
- Archwilio ffyrdd o sicrhau bod dioddefwyr o bob oed yn gwybod am y Cod ac yn gallu deall eu hawliau.

Ymgynghoriad agored yw hwn sy'n ceisio casglu gwybodaeth a data am ddrafft y Cod newydd. Byddwn yn ystyried y rhain yn ofalus ac yn ymgysylltu â dioddefwyr, eu teuluoedd, y rheini sy'n eu cynorthwyo ac arbenigwyr eraill. Byddwn hefyd yn ymgynghori â phartneriaid ym maes cyfiawnder troseddol, eu hasiantaethau, y farnwriaeth a gwahanol fathau o weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda dioddefwyr bob dydd.

Mae'r meysydd sy'n cael eu harchwilio yn y ddogfen ymgynghori hon yn gymwys yn gyffredinol i Loegr neu i Gymru a Lloegr yn unig, gan gynnwys rhai sy'n ymwneud ag iechyd a gofal ac awdurdodau lleol sydd yn faterion datganoledig yng Nghymru.

Yn gyffredinol, mae'r materion sydd dan sylw yn yr ymgynghoriad hwn wedi cael eu datganoli i Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon. Ni fydd y Cod, ar ôl ei gyhoeddi, yn berthnasol yn yr Alban nac yng Ngogledd Iwerddon. Er hynny, gwahoddir unigolion a sefydliadau ledled y DU i ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

Mae/Bydd papur ymgynghori Saesneg ar gael yma
https://www.gov.uk/government/consultations/a-new-victims-code

Ar ôl yr ymgynghoriad, byddwn yn ystyried yr ymatebion yn ofalus ac yn cyhoeddi ymateb ffurfiol gan y llywodraeth. Bydd hyn yn sail i'r Cod newydd a fydd yn cael ei gyflwyno yn y Senedd ac yn dod i rym.

# Pennod 1 – Asesu anghenion dioddefwyr yn effeithiol

## Trosolwg

Mae ‘asesiadau o anghenion’ yn galluogi asiantaethau cyfiawnder troseddol i nodi sut y gallai fod angen cefnogi dioddefwr i ddeall ac ymwneud â’r broses cyfiawnder troseddol. Dyma sut y mae asiantaethau’n nodi a ddylid gwneud unrhyw addasiadau i wasanaethau. Fodd bynnag, gwyddom nad yw’r asesiadau hyn yn cael eu cynnal bob amser a phan fyddant yn cael eu cynnal, gallent fod heb fanylion pwysig fel dewisiadau cyswllt y dioddefwr[2]. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio archwilio pryd a sut mae anghenion dioddefwyr yn cael eu hasesu a sut y dylai asiantaethau cyfiawnder troseddol ddefnyddio’r wybodaeth i gefnogi dioddefwyr yn well i ymgysylltu â'r broses.

Yn y bennod hon, rydym yn nodi egwyddorion newydd yn y Cod sy’n rhoi mwy o eglurder ynghylch cyfrifoldebau asiantaethau cyfiawnder troseddol a phwrpas gofyn am anghenion dioddefwr ar bob cam. Rydym yn gofyn am farn ar sut i ddefnyddio’r Cod i bennu llinell sylfaen glir ar gyfer pryd a sut y cynhelir yr asesiadau hyn a sut y dylid defnyddio’r wybodaeth a gesglir ganddynt fel sail ar gyfer cyflawni hawliau o dan y Cod.

Rydym hefyd yn gweithio gyda’r Coleg Plismona sy’n datblygu hyfforddiant newydd ar gyfer goruchwylwyr swyddogion heddlu rheng flaen a staff. Bydd goruchwyliaeth dda yn sicrhau bod safonau cyson yn cael eu bodloni, a bydd yr hyfforddiant hwn yn ymgorffori pwysigrwydd y Cod a’r broses asesu anghenion. Mae'r Coleg hefyd yn cynnal safonau cenedlaethol ar gyfer hyfforddi swyddogion heddlu newydd a dysgu ehangach ar sut i gynnal asesiadau o anghenion. Mae hyn yn cynnwys darparu deunyddiau hyfforddi a chwrs digidol i'w ddefnyddio ar draws heddluoedd. Rydym yn gofyn am farn ar sut arall y gallwn sbarduno gwelliannau yn ymarferol.

## Egwyddorion newydd ar gyfer asesu anghenion

Rydym wedi cynnwys egwyddorion newydd ar gyfer asesu anghenion yn **Hawl 1** y Cod, i’w gwneud yn glir y dylai asesiadau o anghenion lywio’r gwaith o gyflawni’r holl hawliau sy’n weddill o dan y Cod, ac wedi diweddaru’r pennawd Hawl: ‘i ddeall a chael eich deall a

[2] Mae canfyddiadau'r arolygiaethau wedi tynnu sylw at annigonolrwydd rhai asesiadau o anghenion. Darllenwch ragor yma: https://hmicfrs.justiceinspectorates.gov.uk/publication-html/meeting-the-needs-of-victims-in-the-criminal-justice-system/

**chael gwasanaethau wedi'u haddasu i'ch anghenion chi**'. Byddai hyn yn disodli'r cyfeiriad cyfyngedig at asesiadau o anghenion yn **Hawl 4** (i'ch cyfeirio at wasanaethau sy'n cefnogi dioddefwyr ac sydd â gwasanaethau a chymorth wedi'u teilwra i'ch anghenion) yn y Cod presennol.

Mae'r cynnwys o dan **Hawl 4** bellach yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau cymorth i helpu dioddefwyr i ymdopi ac adfer. Mae hyn er mwyn ei gwneud yn gliriach bod pob dioddefwr yn gymwys i gael gwasanaethau o'r fath, ni waeth beth yw'r drosedd ac mae'n adlewyrchu'n fwy cywir sut mae atgyfeiriadau'n gweithio'n ymarferol. Adlewyrchir hyn yn y pennawd newydd, **Hawl 4**: 'i **hunanatgyfeirio** a/neu gael eich atgyfeirio at wasanaethau sy'n cefnogi dioddefwyr'.

Mae Deddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024 yn mynnu bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn ystyried anghenion dioddefwyr sydd â nodweddion gwarchodedig, wrth benderfynu a oes angen i'r Cod Dioddefwyr wneud darpariaeth wahanol ar gyfer y grwpiau hyn (yn amodol ar weithredu Adran 2 o Ddeddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024).[3] Drwy egluro sut a phryd y dylid asesu anghenion dioddefwr, ein bwriad yw sicrhau bod nodweddion gwarchodedig dioddefwr, gan gynnwys ei oedran (os yw'r dioddefwr yn fodlon rhannu hyn) yn cael eu nodi, a bod modd addasu'r gwasanaethau a ddarperir o dan y Cod i ddiwallu ei anghenion.

Mae'r egwyddorion newydd yn ei gwneud yn glir bod gan bob dioddefwr yr hawl i gael asesiad o'u hanghenion ar wahanol adegau drwy gydol eu hachos, ond yn benodol ar dri cham:

- **Pan fydd dioddefwr yn cysylltu â'r heddlu am y tro cyntaf**, bydd asesiad o anghenion yn helpu'r heddlu i ganfod unrhyw anghenion diogelu uniongyrchol, cofnodi dewisiadau cyswllt y dioddefwr a nodi a yw dioddefwr yn gymwys i gael Hawliau Ychwanegol o dan y Cod cyn gynted ag y bo modd. Bydd hefyd yn sail i atgyfeiriad yr heddlu at wasanaeth sy'n cefnogi dioddefwyr.
- **Yn ystod yr ymchwiliad**, bydd asesiad o anghenion yn cefnogi asiantaethau i sicrhau bod unrhyw anghenion cyfathrebu, iechyd ac anabledd yn cael eu diwallu, fel darparu cyfieithydd ar y pryd. Mae hefyd yn rhoi cyfle iddynt gasglu unrhyw wybodaeth ddemograffig, fel nodweddion gwarchodedig, y mae'r dioddefwr yn fodlon ei rhannu at ddibenion sicrhau eu bod yn addasu gwasanaethau yn y ffordd iawn.

---
[3] Nodweddion gwarchodedig o fewn ystyr Deddf Cydraddoldeb 2010

- **Cyn i ddioddefwr roi tystiolaeth,** bydd asesiad o anghenion yn sail i gais am fesurau arbennig[4] ac yn caniatáu i asiantaethau fynd i'r afael â phryderon ymarferol, a all gynnwys atgyfeirio at wasanaeth cymorth i dystion.

Byddwn hefyd yn defnyddio'r fframwaith newydd hwn i fynnu bod dioddefwyr yn cael gwybod am eu hawliau o dan y Cod Dioddefwyr ar bob un o'r camau hyn (Pennod 5: Helpu dioddefwyr i ddeall eu hawliau o dan y Cod).

Mae gennym ddiddordeb yn eich barn ynghylch a yw'r disgwyliadau hyn ar gyfer asesiadau o anghenion ar gamau priodol y broses cyfiawnder troseddol, ac a ydynt yn ceisio'r wybodaeth angenrheidiol i fod yn sail i'r gwaith o gyflwyno'r Cod. Rydym hefyd yn gofyn am eich barn ynghylch a ddylid cynnal asesiad o anghenion ar ddiwedd achos, a'r hyn y gellid ei ddefnyddio i fod yn sail i'r asesiad hwn.

Rydym yn cydnabod na ddylai asesu anghenion dioddefwr fod yn ymarfer 'ticio blychau' a dylid eu cynnal gyda dioddefwyr mewn ffordd sy'n sicrhau ansawdd uchel ac sy'n seiliedig ar drawma. Felly, nid ydym wedi gosod gofyniad o fewn terfynau amser ar y disgwyliadau sy'n gysylltiedig ag asesiadau o anghenion, er enghraifft, mynnu bod yn rhaid cynnal asesiad o fewn 10 diwrnod gwaith i roi gwybod am y drosedd. Mae hyn yn osgoi sefydlu cymhelliant gwrthnysig i flaenoriaethu bodloni terfyn amser yn hytrach na sicrhau bod asesiad o ansawdd uchel. Mae gennym ddiddordeb mewn clywed eich barn ar sut y gellir cyflwyno asesiadau o anghenion mewn ffordd effeithiol ac o ansawdd uchel, a pha rôl y dylai'r Cod ei chwarae wrth osod safonau priodol.

Yn ogystal ag osgoi dull 'ticio blychau' o asesu dioddefwyr, rydym hefyd eisiau sicrhau bod modd cyflawni'r hawliau Cod a bod dioddefwyr yn gallu dibynnu ar gael gwasanaethau'n unol â'r Cod. Dyna pam ein bod wedi diweddaru'r gofyniad y dylai gwybodaeth am y Cod, gan gynnwys ble a sut i gael cyngor a chymorth, gael ei darparu i bob dioddefwr cyn gynted â phosibl ac o fewn 5 diwrnod gwaith i gysylltu â'r dioddefwr, yn hytrach na'r disgwyliad presennol i wneud hynny o fewn 1 diwrnod gwaith i roi gwybod am drosedd ar gyfer dioddefwyr sydd â Hawliau Uwch (**Hawl 3**). Yn ymarferol, efallai na fydd modd asesu a yw dioddefwyr yn gymwys i gael Hawliau Ychwanegol o fewn diwrnod, yn enwedig ar gyfer troseddau lle mae'r heddlu'n cael gwybod heb gyswllt uniongyrchol rhwng dioddefwr a'r heddlu, fel ar-lein neu drwy drydydd parti.

---

4 Cyflwynodd Deddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999 ystod o fesurau y gellir eu defnyddio i hwyluso'r broses o gasglu a rhoi tystiolaeth gan dystion agored i niwed a thystion sy'n cael eu bygwth. Gelwir y mesurau gyda'i gilydd yn 'fesurau arbennig'. Mae mesurau arbennig yn helpu i liniaru rhywfaint o'r straen sy'n gysylltiedig â rhoi tystiolaeth ac yn berthnasol i dystion yr erlyniad a'r amddiffyniad, ond nid i'r diffynnydd.

# Canlyniadau asesiadau o anghenion

Mae'n bwysig bod y Cod yn glir ynghylch ein disgwyliadau o'r gwasanaethau y gellir eu darparu i ddioddefwyr o ganlyniad i asesiad o anghenion, a dyna pam rydym wedi diweddaru'r Cod gyda gwybodaeth am y canlynol:

- **Darparu gwasanaethau cyfieithu ar y pryd a chyfieithu proffesiynol.** Rydym wedi egluro (a) bod yn rhaid i gymorth gyda chyfathrebu yn ystod y broses cyfiawnder troseddol gael ei ddarparu gan weithwyr proffesiynol sy'n gymwys i wneud hynny a (b) yr amgylchiadau lle dylid darparu gwasanaethau o'r fath.
- **Gwneud cais am fesurau arbennig i gefnogi dioddefwyr i roi eu tystiolaeth orau yn y llys.** Rydym wedi egluro'r broses o wneud cais am fesurau arbennig a phwy sy'n gorfod cefnogi dioddefwyr i wneud hynny, yn ogystal â chyfeirio at ganllawiau fideo Gwasanaeth Erlyn y Goron ar fesurau arbennig, sydd ar gael yma: https://victimandwitnessinformation.org.uk/the-court-process/special-measures.
- **Rhannu data asesiad o anghenion yn briodol rhwng asiantaethau.** Er mwyn sicrhau nad yw dioddefwyr yn gorfod ailadrodd gwybodaeth yn ddiangen, mae'r Cod newydd yn nodi y gall darparwyr gwasanaethau rannu gwybodaeth berthnasol am ddioddefwr a'i anghenion lle cytunir ar hynny a lle bo hynny'n briodol.

# Cwestiynau

**Cwestiwn 1A:** A ydy'r wybodaeth newydd, yn y blwch glas yn *Hawl 1*, sy'n dwyn y teitl "Pryd a sut y bydd eich anghenion yn cael eu hasesu', yn helpu dioddefwyr i ddeall sut y bydd eu hanghenion yn cael eu hasesu?" [Ydw/Nac ydw] Esboniwch eich ateb.

**Cwestiwn 1B:** A ydych chi'n meddwl bod yr asesiadau o anghenion yn digwydd yn ystod camau cywir y broses cyfiawnder troseddol, (y camau hynny yw pan fydd dioddefwr yn ymgysylltu â'r heddlu am y tro cyntaf, yn ystod yr ymchwiliad i'r drosedd, a chyn rhoi tystiolaeth)? [Ydw/Nac ydw] Esboniwch eich ateb.

**Cwestiwn 1C:** A ydych chi'n meddwl bod yr asesiadau hyn yn ymdrin â'r wybodaeth gywir i lywio'r addasiadau angenrheidiol i'r gwasanaethau a ddarperir i ddioddefwyr? [Ydw/Nac ydw] Esboniwch eich ateb.

**Cwestiwn 1D:** A ydych chi'n meddwl y gellid cael asesiad anghenion pellach ar ddiwedd achos? [Ydw/Nac ydw] Os ydych wedi ateb ydw, pa wybodaeth y gallai'r asesiad ei gynnwys a sut y gellid defnyddio'r wybodaeth honno?

**Cwestiwn 1E:** Beth gallai asiantaethau ei wneud i sicrhau bod asesiadau o anghenion o ansawdd uchel ac yn ystyriol o drawma?

**Cwestiwn 1F:** Pa rôl allai'r Cod ei chwarae o ran hwyluso asesiadau o anghenion sydd o ansawdd uchel ac sy'n ystyriol o drawma?

# Pennod 2 – Ymgysylltu â dioddefwyr sy'n blant

## Trosolwg

Gwyddom fod gan blant anghenion gwahanol ac unigryw i oedolion, ac rydym wedi gweithio gydag arbenigwyr y sector a phobl ifanc eu hunain, i ddeall yn well beth sy'n bwysig i ddioddefwyr sy'n blant yn y broses cyfiawnder troseddol. Rydym wedi clywed nad yw plant yn cael yr wybodaeth, yr arweiniad a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt fel mater o drefn, ac mae hyn yn gallu gwneud iddynt deimlo'n ddi-rym wrth iddynt lywio drwy'r system cyfiawnder troseddol.[5] Mae'r ymgynghoriad hwn yn edrych ar sut gall asiantaethau cyfiawnder troseddol ddiwallu anghenion plant yn well, gan roi sylw penodol i roi llais i blant.

Yn y bennod hon, rydym yn gofyn am farn ar fframwaith arfaethedig i gefnogi asiantaethau cyfiawnder troseddol i ymgysylltu'n uniongyrchol â dioddefwyr pob trosedd sy'n blant, er mwyn i ddioddefwyr sy'n blant allu cymryd rhan briodol yn y broses cyfiawnder troseddol. Mae hyn yn cynnwys ceisio barn ar sut y gellir cyflawni hyn yn ymarferol a sut orau i adlewyrchu rôl y rhai sy'n cefnogi dioddefwyr sy'n blant, gan gynnwys rhieni neu warcheidwaid (gan gynnwys gofalwyr).[6]

Mae'r Cod eisoes yn glir na fyddai gan unigolyn â chyfrifoldeb rhiant ac sydd dan amheuaeth o gyflawni trosedd hawl i gael gohebiaeth ar ran eu plentyn sy'n ddioddefwr y drosedd honno. Drwy'r Bil Dioddefwyr a Llysoedd, mae'r Llywodraeth wedi cyflwyno mesurau a fydd yn cyfyngu'r hawl i gyfrifoldeb rhiant yn awtomatig os bydd troseddwr yn cael ei ddedfrydu am drosedd rhyw difrifol yn erbyn plentyn. Ochr yn ochr â hyn, mae'r Bil

---

5 Mae adroddiad y Comisiynydd ar Gam-drin Domestig ar brofiad pobl ifanc o gam-drin domestig yn dangos ymhellach y gwahaniaeth sylweddol sy'n cael ei wneud i brofiad pobl ifanc o ymgysylltu â'r broses cyfiawnder troseddol pan fydd rhywun yn gwrando arnynt, yn eu grymuso ac yn rhoi dewis iddynt. Darllenwch ragor yma: https://domesticabusecommissioner.uk/wp-content/uploads/2025/06/dac_bcyp_main-report_V6-DIGITAL.pdf

6 Mae 'rhiant' yn cynnwys rhiant biolegol, rhiant mabwysiadol, llysriant sydd wedi cael cyfrifoldeb rhiant cyfreithiol a rhiant yn rhinwedd Deddf Ffrwythloni Dynol ac Embryoleg 2008 (er enghraifft, ail riant benywaidd). Mae 'gwarcheidwad' yn golygu unigolyn arall sydd wedi cael cyfrifoldeb rhiant cyfreithiol, unigolyn sydd wedi cael ei benodi'n warcheidwad drwy orchymyn llys neu drwy ewyllys (lle mae'r rhieni wedi marw), neu unigolyn sydd, yn ymarferol, yn gofalu am blentyn o ddydd i ddydd, fel gofalwr neu berthynas gymeradwy awdurdod lleol.

hefyd yn darparu ar gyfer cyfyngu'r hawl i gyfrifoldeb rhiant pan ddedfrydir troseddwr am dreisio a bod ei drosedd wedi arwain at eni plentyn y mae ganddo gyfrifoldeb rhiant drosto.

Ar ôl ei ddeddfu a'i weithredu, bydd y newid deddfwriaethol hwn yn cael ei adlewyrchu yn y fframwaith arfaethedig i sicrhau na fyddai'r rheini y mae eu cyfrifoldeb rhiant wedi'i gyfyngu yn cael gohebiaeth am eu plentyn os ydynt yn mynd drwy'r broses cyfiawnder troseddol.

Rydym hefyd yn gofyn am farn ar gynnwys ychwanegol arfaethedig yn y Cod sy'n nodi'r hyn y gall dioddefwyr sy'n blant ei ddisgwyl gan y system cyfiawnder troseddol, fel y darpariaethau hynny a nodir yn y Canllawiau ar Sicrhau'r Dystiolaeth Orau sydd eisoes wedi'u sefydlu.[7]

# Fframwaith ar gyfer ymgysylltu â dioddefwyr sy'n blant

Gwyddom nad yw unigolion yn cyfathrebu'n uniongyrchol â phlant am y broses cyfiawnder troseddol nac yn cael dewisiadau o ran sut y gallent ymgysylltu.[8] Rydym wedi gweithio'n agos gydag arbenigwyr yn y sector cymorth i ddioddefwyr ac wedi ystyried dulliau gweithredu mewn sectorau eraill, fel gofal iechyd, i ddatblygu fframwaith cenedlaethol arfaethedig ar gyfer sut y dylai asiantaethau cyfiawnder troseddol ddarparu hawliau gwybodaeth a chyfathrebu o dan y Cod yn uniongyrchol i blant. Mae'r hawliau'r hyn o'r Cod yn cynnwys yr angen i ddeall, cydsynio a darparu safbwyntiau.

Mae gallu plentyn i ddeall a chydsynio yn gymhleth a bydd yn esblygu dros amser, felly rydym wedi cynnig dulliau cyffredinol gwahanol ar sail grwpiau oedran. Byddai'r fframwaith cenedlaethol arfaethedig yn ei gwneud yn ofynnol i asiantaethau cyfiawnder troseddol ystyried a oes gan blant ddigon o ddealltwriaeth ac aeddfedrwydd i lwyr werthfawrogi goblygiadau penderfyniadau penodol iddynt, a elwir yn 'gymwys yn ôl Gillick' mewn lleoliad iechyd, fel rhan o asesiadau o anghenion.[9]

Felly, mae'r cynnig hefyd yn ymdrin â sut y byddai cyfathrebu'n digwydd ochr yn ochr â rhieni neu warcheidwaid, a lle y gallent gael cyfathrebiad ar ran eu plentyn (gan nodi eithriad glir mewn achosion a fyddai'n dod o dan y mesur newydd ar gyfer cyfyngiad

7 https://assets.publishing.service.gov.uk/media/6492e26c103ca6001303a331/achieving-best-evidence-criminal-proceedings-2023.pdf

8 https://assets.childrenscommissioner.gov.uk/wpuploads/2024/06/Childrens-experiences-as-victims-of-crime_final.pdfhttps://assets.childrenscommissioner.gov.uk/wpuploads/2024/06/Childrens-experiences-as-victims-of-crime_final.pdf

9 https://www.nhs.uk/conditions/consent-to-treatment/children/

awtomatig yn y Bil Dioddefwyr a Llysoedd, lle mae'r rhiant neu'r gwarcheidwad hwnnw o dan amheuaeth, neu lle nad yw'n cael ei ystyried er lles gorau'r plentyn i wneud hynny).

Rydym yn croesawu barn ynghylch a fyddai'r categorïau oedran a'r egwyddorion cyffredinol canlynol yn gweithio mewn lleoliad cyfiawnder troseddol:

1) **0–11 oed:** byddai hawliau gwybodaeth a chyfathrebu yn cael eu rhoi i'r rhiant neu'r gwarcheidwad ar ran y plentyn. Gallai asiantaethau hwyluso dulliau gweithredu gwahanol ar gyfer plant sy'n dymuno cymryd rhan a dangos yn glir eu bod yn gymwys i wneud penderfyniadau, ond na fyddai'n ofynnol iddynt gynnig hyn yn rhagweithiol.
2) **12–15 oed:** byddai plant yn cael cyfle i dderbyn hawliau gwybodaeth a chyfathrebu yn uniongyrchol (oni bai fod anghenion eraill ganddynt neu'u bod yn agored i niwed a fyddai'n gwneud hyn yn amhriodol), ochr yn ochr â'r rhiant neu'r gwarcheidwad.
3) **16–17 oed:** byddai plant yn cael hawliau gwybodaeth a chyfathrebu yn uniongyrchol (oni bai eu bod yn optio allan neu fod anghenion eraill ganddynt neu'u bod yn agored i niwed, ac o'r herwydd byddai hynny yn amhriodol). Byddai rhieni neu warcheidwaid yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf drwy gydol y broses, oni bai fod y plentyn yn byw'n annibynnol.

Pan fydd cyfathrebu'n digwydd gyda'r plentyn a'r rhiant neu'r gwarcheidwad, rydym yn rhagweld y byddai hyn yn aml yn cael ei wneud ar yr un pryd yn ymarferol, er enghraifft un e-bost wedi'i gyfeirio at y ddau neu gyfarfod neu drafodaeth gyda'r ddau yn bresennol. Rydym yn cydnabod y byddai hyn yn newid yr arferion presennol, ac y gallai fod angen cymorth a hyfforddiant ar asiantaethau cyfiawnder troseddol i gyflawni hyn yn effeithlon ac yn effeithiol. Mae'r Asesiad o Effaith sy'n cyd-fynd â hyn yn nodi'r amcangyfrif o'r adnoddau y gallai fod eu hangen ar y fframwaith. Byddem yn croesawu safbwyntiau ynghylch sut y gellid hwyluso a gwreiddio'r newidiadau hyn yn arferion asiantaethau cyfiawnder troseddol mewn ffordd effeithlon ac effeithiol, gan leihau unrhyw ddyblygu posibl ar weithgarwch cyfathrebu.

# Cwestiynau

**Cwestiwn 2A:** A ydych chi'n meddwl y dylid cyflwyno fframwaith sy'n llywio ymgysylltiad asiantaethau cyfiawnder troseddol â phlant? [Ydw/Nac ydw] Esboniwch eich ateb.

**Cwestiwn 2B:** A ydych chi'n cytuno â'r fframwaith arfaethedig ar gyfer sut gallai asiantaethau cyfiawnder troseddol ymgysylltu â phlant? [Ydw/Nac ydw] Esboniwch eich ateb.

**Cwestiwn 2C:** A ydych chi'n meddwl bod y categorïau oedran arfaethedig sy'n cael eu defnyddio i lywio ymgysylltiad asiantaethau cyfiawnder troseddol â dioddefwyr sy'n blant yw'r rhai cywir? [Ydw/Nac ydw] Esboniwch eich ateb.

**Cwestiwn 2D:** A ydych chi'n meddwl bod y lefel briodol o ymgysylltu'n cael ei hadlewyrchu ym mhob categori, er enghraifft rhagdybiaeth o ymgysylltu uniongyrchol â phobl ifanc 16 a 17 oed? [Ydw/Nac ydw] Esboniwch eich ateb.

**Cwestiwn 2E:** A oes unrhyw amgylchiadau lle na ddylai'r fframwaith arfaethedig ar gyfer sut mae asiantaethau cyfiawnder troseddol yn ymgysylltu â phlant fod yn berthnasol? [Ydw/Nac ydw] Esboniwch eich ateb.

**Cwestiwn 2F**: Rhowch eich barn ar yr hyn y gallai asiantaethau ei wneud i sicrhau bod ymgysylltiad uniongyrchol â phlant o ansawdd uchel ac yn ystyriol o drawma.

# Darpariaeth benodol ar gyfer dioddefwyr sy'n blant

Rydym am ei gwneud yn glir drwy gydol y Cod lle mae anghenion gwahanol a phendant plant yn golygu y dylid cyflwyno hawliau'r Cod mewn ffordd wahanol, er mwyn eu cefnogi orau i ymgysylltu â'r system cyfiawnder troseddol.

Rydym felly wedi ychwanegu adrannau penodol sy'n egluro'r rhain drwy'r Cod. Mae'r rhain yn adlewyrchu'n fras yr egwyddorion a nodir yn y fframwaith arfaethedig ar gyfer ymgysylltu â phlant fel yr uchod a chanllawiau cyfiawnder troseddol eraill sy'n bodoli'n barod. Mae'r newidiadau hyn yn cynnwys:

- **Gwybodaeth am sut y gall prosesau fod yn wahanol i blant,** megis os ydynt yn datgelu trosedd yn yr ysgol, a'u cymhwysedd awtomatig ar gyfer mesurau arbennig.
- **Amlinellu lle gallai rhiant neu warcheidwad gael rhai hawliau o dan y Cod ar ran plentyn.** Er enghraifft, os yw'r plentyn dan 12 oed, gall ei riant neu warcheidwad wneud Datganiad o Effaith ar Ddioddefwyr ar ei ran neu dderbyn cyswllt gan y Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr os yw'n gymwys.
- **Ei gwneud yn glir y dylid atgyfeirio plant yn uniongyrchol at wasanaeth cefnogi**, ac y gallai eu rhiant neu warcheidwad fel arall dderbyn gwybodaeth neu hawliau cyfathrebu dan y Cod ar ran y plentyn. Rydym wedi egluro y gall rhieni neu warcheidwaid geisio cymorth ar wahân a allai fod ar gael yn lleol neu ar-lein.

Ein bwriad yw bod yn glir i ddioddefwyr ac asiantaethau cyfiawnder troseddol beth y gall dioddefwyr sy'n blant ei ddisgwyl, ond gwyddom fod yn rhaid i'r Cod weithio ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd. Er mwyn sicrhau bod plant iau yn gallu deall eu hawliau,

rydym yn bwriadu datblygu deunyddiau ar wahân sydd wedi'u teilwra i gefnogi dealltwriaeth plant, ac rydym yn gofyn cwestiynau am hyn yn nes ymlaen yn yr ymgynghoriad hwn (**gweler Pennod 5: Helpu dioddefwyr i ddeall eu hawliau o dan y Cod**).

Rydym yn gofyn am eich barn ynghylch a yw'r wybodaeth hon yn ddefnyddiol, a yw'n cael ei chyflwyno yn y ffordd gywir ac a oes unrhyw ddarpariaethau eraill yr ydych yn ymwybodol ohonynt y dylid eu cynnwys.

# Cwestiynau

**Cwestiwn 2G:** A ydych chi'n credu y dylid cynnwys yr adrannau penodol sy'n nodi'r hyn y gall dioddefwyr sy'n blant ei ddisgwyl yn y Cod? (fel blychau melyn drwy'r ddogfen) [Ydw/Nac ydw] Esboniwch eich ateb.

**Cwestiwn 2H:** Yn gyffredinol, ydych chi'n meddwl y dylai rhiant neu warcheidwad gyfleu effaith trosedd ar ddioddefwyr o dan 12 oed (er enghraifft, drwy wneud Datganiad o Effaith ar Ddioddefwyr ar ran y plentyn)? [Ydw/Nac ydw] Esboniwch eich ateb.

**Cwestiwn 2I:** Dywedwch wrthym a oes unrhyw beth arall y gellid ei gynnwys mewn blwch melyn yn y Cod i nodi darpariaeth sy'n benodol i ddioddefwyr sy'n blant.

# Pennod 3 – Ansawdd a phrydlondeb darparu gwybodaeth am achosion

## Trosolwg

Gwyddom o adroddiadau arolygiadau cyfiawnder troseddol ac adborth gan ddioddefwyr a'r sector y gall asiantaethau fabwysiadu dull 'ticio blychau' o ddarparu rhai hawliau gwybodaeth o dan y Cod. Gall hyn arwain at gyfathrebu o ansawdd gwael sy'n golygu bod dioddefwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gadael allan o'r system cyfiawnder troseddol ac, yn y pen draw, gallent olygu eu bod eisiau ymddieithrio oddi wrth y broses. Rydym am i asiantaethau gyflwyno hawliau gwybodaeth mewn ffordd sy'n cyd-fynd ag ysbryd y Cod, ac nid dim ond llythyren y Cod, er mwyn i ddioddefwyr gael gwybodaeth yn y ffordd iawn ac ar yr adeg iawn.

Gwyddom y bydd yr hyn sydd ei angen ar ddioddefwyr yn amrywio. Bydd rhai dioddefwyr eisiau gwybod am ddiweddariadau achos sylfaenol fel manylion apwyntiadau sydd wedi cael eu gwneud, ac efallai y bydd dioddefwyr eraill angen cyfathrebu sensitif sy'n ystyriol o drawma drwy gydol y broses. Rydym yn gwybod bod dioddefwyr yn gallu cael llawer o wybodaeth gan wahanol asiantaethau, ond mae effeithiau trawma'n golygu efallai na fydd dioddefwyr yn gallu prosesu gwybodaeth a roddir iddyn nhw ar unwaith mewn rhai achosion.

Yn y bennod hon, rydym yn gofyn am farn ar fesurau i wella ansawdd a phrydlondeb cyfathrebu â dioddefwyr; y pwyntiau a'r dulliau cywir i gyfathrebu diweddariadau rheolaidd a diweddariadau mwy sensitif; ac ar opsiynau cyfathrebu arloesol.

# Sut mae asiantaethau'n darparu gwybodaeth i ddioddefwyr

Mae enghreifftiau da o ffyrdd arloesol o ddarparu gwybodaeth sylfaenol i ddioddefwyr drwy lwybrau digidol, sy'n rhoi'r dewis i ddioddefwyr ymgysylltu ar adeg ac mewn man sy'n gweithio iddyn nhw.

Mae'r heddlu wedi datblygu 'portholion' ar-lein mewn sawl maes sy'n darparu gwybodaeth sylfaenol a diweddariadau awtomatig i ddioddefwyr troseddau penodol fel bwrgleriaeth, lladrad ac ymosodiad yn ystod cam cyn cyhuddo achos. Mae rhai portholion hefyd yn

darparu llwybrau ychwanegol i ddioddefwyr gyfathrebu â'r swyddog heddlu sy'n gyfrifol am yr achos.

Mae gennym ddiddordeb mewn archwilio a allai cynnig tebyg o wasanaeth digidol wella profiadau dioddefwyr yn nes ymlaen yn y broses cyfiawnder troseddol. Byddem yn croesawu barn ar ba wybodaeth fyddai'n briodol ac na fyddai'n briodol ei chael yn y fformat hwnnw.

Mae gan arloesi digidol y potensial hefyd i ryddhau amser i weithwyr proffesiynol gyfleu gwybodaeth sensitif i ddioddefwyr mewn ffordd sy'n seiliedig ar drawma. Rydym yn gwybod bod enghreifftiau da o hyfforddiant pwrpasol i gefnogi gweithwyr proffesiynol i gyflawni hyn. Er enghraifft, mae Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi bod yn datblygu hyfforddiant i staff, gan gynnwys erlynwyr, sy'n gweithio gyda dioddefwyr treisio a throseddau rhywiol difrifol eraill, er mwyn iddynt gael gwell dealltwriaeth o drawma fel sail i'w hymgysylltiad â dioddefwyr.

Rydym am ddeall sut y gallwn fynd ymhellach i wella ansawdd yr ymgysylltu â dioddefwyr gan weithwyr proffesiynol mewn asiantaethau cyfiawnder troseddol. Fel rhan o hyn, rydym wedi clywed bod rhai achosion lle gallai mwy o hyblygrwydd ynghylch pwy sy'n cyfathrebu â dioddefwyr wella profiadau dioddefwyr, fel eu bod, lle bo angen, yn gallu clywed yn uniongyrchol gan y penderfynwr perthnasol. Er enghraifft, ar hyn o bryd mae'r heddlu'n gyfrifol am gyfathrebu penderfyniadau ynghylch cyhuddo ni waeth a yw penderfyniad yn cael ei wneud gan yr heddlu neu Wasanaeth Erlyn y Goron. Pan fydd y penderfyniad yn cael ei wneud gan Wasanaeth Erlyn y Goron, efallai y bydd yn cael ei gyfleu'n well ganddynt.

Mae'n briodol ein bod yn parhau i arloesi, treialu a gwerthuso gwahanol ffyrdd o ddarparu gwybodaeth i ddioddefwyr. Rydym felly wedi ychwanegu darpariaeth yn y Cod sy'n caniatáu i ddarparwyr gwasanaeth allanoli neu ddirprwyo rhai o'u cyfrifoldebau i ddarparu gwybodaeth i ddioddefwyr neu atgyfeirio at wasanaethau cymorth, ond dim ond lle byddai hyn yn gwella'r modd y darperir gwasanaethau, a lle bo'n briodol, bod trefniadau monitro ansawdd a diogelu data ar waith (gweler adran: Pwy sy'n gyfrifol am gyflawni'r Hawliau dan y Cod hwn). Rydym yn gofyn i chi am eich barn ar y dull hwn.

# Cwestiynau

**Cwestiwn 3A:** Pa wybodaeth fyddai fwyaf gwerthfawr i ddioddefwyr sy'n mynd drwy'r broses cyfiawnder troseddol allu gael gafael arni ar wasanaeth digidol, yn cynnwys yn ystod yr ymchwiliad a chyn-treial?

**Cwestiwn 3B:** Pa wybodaeth na ddylid ei chyfleu'n ddigidol ond yn hytrach y dylid ei chyfleu drwy gyfathrebu'n bersonol â dioddefwyr?

**Cwestiwn 3C:** Pa ystyriaethau eraill ddylai fod yn rhan annatod o ddyluniad unrhyw wasanaeth digidol i ddioddefwyr.

**Cwestiwn 3D:** Sut gallai gwasanaeth digidol i ddioddefwyr helpu i baratoi dioddefwyr ar gyfer beth i'w ddisgwyl yn y llys?

**Cwestiwn 3E:** Rhowch eich barn ar yr hyn y gallai asiantaethau ei wneud i sicrhau bod ymgysylltiad â dioddefwyr sy'n oedolion o ansawdd uchel ac yn ystyriol o drawma. Gweler Cwestiwn 2F ar gyfer dioddefwyr sy'n blant yn benodol.

**Cwestiwn 3F:** Pa rôl y gall y Cod ei chwarae o ran cefnogi prosesau cyfathrebu o ansawdd uchel sy'n ystyriol o drawma?

**Cwestiwn 3G:** A ydych chi'n credu y dylai asiantaethau allu dirprwyo cyfrifoldebau fel darparu gwybodaeth i ddioddefwyr ac atgyfeirio at wasanaethau cymorth? [Ydw/Nac ydw] Esboniwch eich ateb.

# Pennod 4 – Gwella’r ffordd y cynigir cyfleoedd i ddioddefwyr gymryd rhan

## Trosolwg

Mae’n bwysig bod dioddefwyr yn teimlo eu bod yn cael yr wybodaeth a’r gefnogaeth i allu cymryd rhan a bod eu lleisiau’n cael eu clywed mewn proses cyfiawnder troseddol sy’n aml yn gallu teimlo’n ddieithr iddynt. Fodd bynnag, gwyddom nad yw hyn yn wir bob amser. Er enghraifft, mae'r Datganiad o Effaith ar Ddioddefwyr (sy'n cael ei alw'n Ddatganiad Personol y Dioddefwr ar hyn o bryd) yn rhoi llais i ddioddefwyr mewn achosion llys drwy eu galluogi i ddisgrifio effaith y drosedd arnynt, sy'n helpu'r llys pan fyddant yn ystyried difrifoldeb y drosedd i lywio dedfryd y troseddwr. Er, gwyddom na all llawer o ddioddefwyr gofio cael cyfleoedd i wneud Datganiad o Effaith ar Ddioddefwyr.[10]

Cyflwynir y Datganiad o Effaith ar Ddioddefwyr fel tystiolaeth er mwyn i'r llys allu ei ystyried wrth benderfynu ar y ddedfryd, sy'n golygu bod yn rhaid iddo ddilyn rheolau arferol tystiolaeth. Rydym wedi clywed gan ddioddefwyr a'u teuluoedd nad yw'r gofyniad i'r Datganiad ddilyn rheolau tystiolaeth bob amser wedi cael ei egluro. Gall hyn arwain at ddryswch, yn enwedig lle gofynnwyd i ddioddefwyr a'u teuluoedd newid eu Datganiadau i sicrhau nad ydynt yn cynnwys deunydd na ellir ei roi gerbron y llys. Rydym o’r farn bod yna rôl i’r Cod o ran mynd i’r afael â’r materion hyn drwy wella dealltwriaeth dioddefwyr o’r Datganiad o Effaith ar Ddioddefwyr a’i bwrpas, a ffurfioli'r broses o bryd y dylid cynnig hyn i ddioddefwyr.

Rydym hefyd yn credu bod darparu gwybodaeth i ddioddefwyr ar yr adeg iawn ac mewn ffordd sy’n sensitif i’w hanghenion yn gallu effeithio ar a yw dioddefwr yn dewis cymryd rhan yn y broses. Er enghraifft, gallai rhoi’r dewis i ddioddefwyr cymwys y cynllun Cysylltu â Dioddefwyr i gael gwybodaeth ar adegau allweddol yn ystod dedfryd y troseddwr fod yn llethol os cynigir hyn iddynt yn syth ar ôl dedfrydu. Rydym o’r farn y gellid gwella hyn drwy roi mwy nag un cyfle i ddioddefwyr benderfynu a ydynt am dderbyn gwybodaeth a gwneud penderfyniadau ynghylch sut y maent yn dymuno cymryd rhan.

Yn y bennod hon, rydym am ddeall pryd a sut y dylid cynnig cyfleoedd (fel y gallu i wneud Datganiad Effaith ar Ddioddefwyr neu i ymuno â’r Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr) i ddioddefwyr, gan gynnwys lle dylid gwneud y cynnig hwn fwy nag unwaith i roi mwy o

[10] Fel sy’n cael ei ddangos yn Arolwg Dioddefwyr y Comisiynydd Dioddefwyr (2023): https://cloud-platform-e218f50a4812967ba1215eaecede923f.s3.amazonaws.com/uploads/sites/6/2024/08/Victim-Survey-2023-final-full-with-alt-text-27-Aug.pdf

gyfleoedd i'r dioddefwr ei ystyried. Rydym hefyd yn gofyn am eich barn ynghylch pryd y dylid darparu gwybodaeth i ddioddefwyr am bresenoldeb troseddwyr mewn gwrandawiadau dedfrydu, ac a all dioddefwyr fynegi eu barn am ryddhau troseddwr pan fyddant yn cael eu hystyried gan y Bwrdd Parôl.

# Cynnig cyfle i wneud Datganiad Effaith ar Ddioddefwyr

Mae Datganiadau o Effaith ar Ddioddefwyr yn rhoi cyfle i ddioddefwyr ddisgrifio effeithiau trosedd arnynt yn eu geiriau eu hunain, a bydd y llys yn eu hystyried pan ddedfrydir troseddwr. Fodd bynnag, gwyddom fod sawl pwynt lle dylid ystyried effaith y drosedd ar y dioddefwr. Rydym hefyd yn cydnabod, mewn achosion lle mae penderfyniad ynghylch cyhuddo neu dreial yn digwydd ymhell ar ôl rhoi gwybod am y drosedd am y tro cyntaf, y gallai dioddefwyr fod eisiau'r cyfle i wneud Datganiad Effaith pellach ar Ddioddefwyr i fynegi'r effaith tymor hwy y mae'r drosedd wedi'i chael arnynt.

Felly, rydym wedi cynnig nifer o ddiweddariadau yn y Cod i adlewyrchu'n well lle dylid cynnig cyfle i ddioddefwyr gael llais, a sut mae effaith y drosedd ar y dioddefwr yn cael ei hystyried gan y rhai sy'n gwneud penderfyniadau ar wahanol adegau yn y broses.

- **Datganiadau tyst.** Mewn rhai achosion, cynigir cyfle i ddioddefwyr wneud Datganiadau Effaith ar Ddioddefwyr pan fyddant yn rhoi eu datganiad tyst i'r heddlu, ond rydym yn cydnabod y gallai hyn fod yn rhy fuan i allu mynegi effaith y drosedd yn llawn. Rydym hefyd am osgoi gofyn i ddioddefwyr wneud datganiad na fydd efallai'n cael ei ddefnyddio, er enghraifft os nad yw'r unigolyn dan amheuaeth yn cael ei gyhuddo. Rydym wedi cynnwys gwybodaeth newydd am sut bydd y datganiad tyst yn cael ei ddefnyddio i ddeall effaith gychwynnol y drosedd, sy'n cael ei ystyried gan yr heddlu neu Wasanaeth Erlyn y Goron wrth wneud y penderfyniad ynghylch cyhuddo (**Hawl 7**).
- **Datganiadau Effaith ar Ddioddefwyr yn ystod achosion.** Rydym wedi cynnig diweddaru'r derminoleg o Ddatganiad Personol y Dioddefwr i Ddatganiad Effaith ar Ddioddefwyr er mwyn adlewyrchu pwrpas a chynnwys y datganiad yn fwy cywir. Rydym wedyn wedi cynnig ychwanegu dau bwynt cynnig ffurfiol ar gyfer Datganiad Effaith ar Ddioddefwyr: (1) pan hysbysir dioddefwr bod yr unigolyn a amheuir wedi cael ei gyhuddo gan yr heddlu; a (2) pan ddywedir wrth ddioddefwr am ddyddiad y treial gan yr Uned Gofal Dioddefwyr a Thystion (neu pan fydd aelod o'r teulu mewn profedigaeth yn cael gwybod am ddyddiad y treial gan ei Swyddog Cyswllt Teulu). Rydym hefyd wedi sicrhau ei bod yn gliriach i ddioddefwyr bod y Datganiad yn cael ei ystyried pan fydd y barnwr neu'r ynad yn gwneud y penderfyniad dedfrydu (**Hawl 7**).
- **Datganiadau o Effaith ar Ddioddefwyr ar ôl achosion.** Rydym wedi adlewyrchu'r hawl newydd sydd ar y gweill i rai dioddefwyr allu darparu Datganiad o Effaith ar

Ddioddefwyr pan fydd Tribiwnlys Iechyd Meddwl[11] yn ystyried rhyddhau troseddwr sy'n cael ei gadw'n gaeth o dan orchymyn ysbyty, mewn ffordd debyg i'r gallu presennol i wneud hynny pan fydd y Bwrdd Parôl yn ystyried rhyddhau troseddwr sy'n cael ei gadw yn y carchar (**Hawl 11**).

Rydym o'r farn y bydd bod yn gliriach yn y Cod newydd ynghylch disgwyliadau o ran pryd y bydd Datganiad Effaith ar Ddioddefwyr yn cael ei gynnig yn ffurfiol a phwy fydd yn gwneud y cynnig hwn i ddioddefwyr yn caniatáu i ddioddefwyr wneud dewis ar sail gwybodaeth, ac yn galluogi monitro'n well sut mae'r hawl hon yn cael ei darparu.

Rydym hefyd wedi cynnwys rhagor o wybodaeth yn y Cod ei hun i helpu dioddefwyr i ddeall sut mae Datganiadau Effaith ar Ddioddefwyr yn gweithio'n ymarferol, gan gynnwys cyfeirio at y canllawiau sydd ar gael[12] ar beth i'w gynnwys mewn datganiad, ac egluro os bydd dioddefwr yn dewis gofyn am gael darllen ei ddatganiad yn uchel, ei fod yn gymwys i wneud cais am fesurau arbennig.[13]

# Darparu gwybodaeth am ddedfrydu

Rydym yn gwybod bod gwneud Datganiad Effaith ar Ddioddefwyr mewn gwrandawiad dedfrydu yn gallu bod yn rhan bwysig o lais dioddefwr yn cael ei glywed mewn achos, os ydyw'n dewis gwneud hynny. Y disgwyliad cychwynnol yw y dylai'r troseddwr fod yn bresennol yn y gwrandawiad, ac mae cyfleoedd i ddioddefwyr ofyn am fesurau arbennig i'w helpu i wneud datganiad lle bo angen. Gall fod achosion lle mae'r troseddwr yn gwrthod bod yn bresennol yn y gwrandawiad. Rydym yn cymryd camau drwy'r Bil Dioddefwyr a Llysoedd i roi pŵer statudol penodol i farnwyr i orchymyn troseddwyr i fynychu eu gwrandawiadau dedfrydu fel eu bod yn gorfod wynebu canlyniadau eu gweithredoedd.

Fodd bynnag, gwyddom fod barn a dymuniadau dioddefwyr o ran a ydynt am i'r troseddwr fod yno yn rhai unigol iawn. Mae'r penderfyniad ynghylch a ddylid gorchymyn troseddwr i fod yn bresennol yn un y bydd y barnwr yn ei wneud ar sail amgylchiadau'r achos hwnnw. Gallent ddewis peidio â gwneud hynny os oes risgiau difrifol y bydd ymddygiad y

11 Tribiwnlys yr Haen Gyntaf (Iechyd Meddwl) yn Lloegr a Thribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru

12 https://assets.publishing.service.gov.uk/media/5a7cd21040f0b6629523c02e/victims-vps-guidance.pdf

13 Cyflwynodd Deddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999 ystod o fesurau y gellir eu defnyddio i hwyluso'r broses o gasglu a rhoi tystiolaeth gan dystion agored i niwed a thystion sy'n cael eu bygwth. Gelwir y mesurau gyda'i gilydd yn fesurau arbennig. Mae mesurau arbennig yn helpu i liniaru rhywfaint o'r straen sy'n gysylltiedig â rhoi tystiolaeth ac yn berthnasol i dystion yr erlyniad a'r amddiffyniad, ond nid i'r diffynnydd.

troseddwr yn tarfu ar y gwrandawiad neu'n achosi trallod neu niwed i staff a dioddefwyr, os gorchmynnir iddynt fod yn bresennol.

Credwn fod mwy y gellid ei wneud i gyfathrebu â dioddefwyr fel eu bod yn ymwybodol y gall diffyg presenoldeb ddigwydd a'u bod yn gwybod pa ffactorau y gall barnwyr eu hystyried wrth benderfynu a ddylid gorchymyn presenoldeb ai peidio. Byddem yn croesawu barn ar y dull cywir o gyfathrebu'r wybodaeth hon.

Mae'r mesurau a gyflwynwyd yn ddiweddar yn y Ddeddf Dedfrydu yn rhoi cyfle i sicrhau system gyfiawnder sy'n gweithio i ddioddefwyr, ac y gallent ymddiried ynddi. Rydym yn gweithredu fframwaith rhyddhau cynhwysfawr, newydd sy'n addas ar gyfer y dyfodol ac a fydd yn dod â llawer mwy o eglurder i ddioddefwyr. Bydd y fframwaith hwn, a elwir yn Fodel Cynnydd, yn symleiddio ac yn dod â thryloywder i'r broses ddedfrydu, fel bod dioddefwyr yn gwybod beth i'w ddisgwyl o wahanol rannau o'r ddedfryd, a phryd y bydd eu troseddwr yn cael ei ryddhau o'r carchar. Byddwn yn parhau i wella dealltwriaeth y cyhoedd drwy archwilio'r cyfleoedd cyfathrebu mwyaf effeithiol a phriodol i gefnogi dealltwriaeth y cyhoedd o ddedfrydu. Byddwn yn gweithredu unrhyw newidiadau sy'n ofynnol i'r Cod ar ôl dechrau mesurau yn y Ddeddf Dedfrydu. Wrth i ni ystyried y newidiadau hyn, mae gennym ddiddordeb mewn beth arall y gellir ei wneud i helpu dioddefwyr i ddeall y ddedfryd y mae troseddwr wedi'i chael.

# Cwestiynau

**Cwestiwn 4A:** A ydych chi'n credu y dylid rhoi cynnig i ddioddefwyr wneud Datganiad o Effaith ar Ddioddefwyr unwaith y bydd unigolyn a amheuir wedi'i gyhuddo, ac eto pan fydd treial wedi'i drefnu? [Ydw/Nac ydw] Esboniwch eich ateb.

**Cwestiwn 4B:** Yn eich barn chi, pa mor ddefnyddiol yw'r wybodaeth newydd yn Hawl 7 i sicrhau bod dioddefwyr yn deall sut gallent wneud Datganiad o Effaith ar Ddioddefwyr? [Likert - Defnyddiol iawn -> Ddim yn ddefnyddiol o gwbl].

**Cwestiwn 4C:** Yn eich barn chi, pa mor ddefnyddiol yw'r wybodaeth newydd yn Hawl 11 i sicrhau bod dioddefwyr yn deall pryd y gallant wneud Datganiad o Effaith ar Ddioddefwyr? [Likert - Defnyddiol iawn -> Ddim yn ddefnyddiol o gwbl].

**Cwestiwn 4D:** Ar ba bwynt(iau) yn ystod achosion cyfiawnder troseddol y dylid dweud wrth ddioddefwyr am wrandawiadau dedfrydu a phresenoldeb troseddwyr?

**Cwestiwn 4E**: Pa wybodaeth fyddai'n ddefnyddiol i helpu dioddefwyr i ddeall pam y gallai neu na allai'r barnwr benderfynu gorchymyn y troseddwr i fod yn bresennol yn y gwrandawiad?

**Cwestiwn 4F:** A ydych chi'n meddwl bod dioddefwyr yn deall penderfyniadau dedfrydu'n iawn? [Ydw/Nac ydw] Esboniwch eich ateb.

**Cwestiwn 4G:** Yn eich barn chi, pa ddeunyddiau fyddai'n ddefnyddiol i ddioddefwyr i helpu i wella eu dealltwriaeth o benderfyniadau dedfrydu?

# Pryd i gynnig y Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr i ddioddefwyr

Mae’r Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr yn wasanaeth a gynigir yn rhagweithiol gan Swyddogion Cyswllt â Dioddefwyr yn y Gwasanaeth Prawf i ddioddefwyr cymwys, ar ôl i’r troseddwr gael ei ddyfarnu’n euog. Mae’n rhoi cyfle i ddioddefwyr gael yr wybodaeth ddiweddaraf ar adegau allweddol yn ystod dedfryd y troseddwr a chyflwyno sylwadau am amodau rhyddhau ar yr adegau perthnasol.

Rydym yn cydnabod efallai y bydd angen cynnig y Cynllun i ddioddefwyr cymwys fwy nag unwaith oherwydd efallai eu bod ar wahanol gamau o’u parodrwydd i ymgysylltu â hyn ar ôl cael gwybod am ddedfryd troseddwr. Ar hyn o bryd, os nad yw dioddefwr yn penderfynu ymgysylltu â’r Cynllun ar y pwynt hwn, ystyrir ymdrechion gan y Swyddog Cyswllt â Dioddefwyr i gysylltu ymhellach â’r dioddefwr dim ond os oes risg barhaus i’r dioddefwr, os yw’r risg i’r dioddefwr yn cynyddu neu os yw’r achos yn uchel ei broffil ac yn debygol o gynhyrchu adroddiadau eang yn y cyfryngau.

Mae’r Cod newydd yn darparu cyfeiriad e-bost ar gyfer dioddefwyr sy’n credu y dylent fod wedi cael eu hatgyfeirio neu sydd wedi newid eu meddwl ynghylch derbyn cynnig y Cynllun er mwyn iddynt allu cysylltu â’r Gwasanaeth Prawf. Ond mae gennym ddiddordeb yn eich barn ynghylch a ddylid darparu rhagor o gyfleoedd rhagweithiol i ddioddefwyr gymryd rhan yn y Cynllun, er enghraifft pan fydd y troseddwr yn cael ei ystyried ar gyfer ei ryddhau ac efallai y bydd dioddefwyr yn dymuno cyflwyno sylwadau neu Ddatganiad Effaith ar Ddioddefwyr. Rydym hefyd yn gofyn am eich barn ynghylch a fyddai gofyn am ganiatâd y dioddefwr i gynnig y gwasanaeth yn ddiweddarach yn ffordd addas o sicrhau na chysylltir â dioddefwyr dro ar ôl tro, pan nad ydynt yn dymuno cael hynny.

Rydym hefyd yn cymryd camau drwy’r Bil Dioddefwyr a Llysoedd i ddod â dioddefwyr sydd ar hyn o bryd yn cael eu gwasanaethu gan wahanol gynlluniau cyfathrebu ôl-euogfarn i mewn i’r Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr, a darparu llwybr newydd i ddioddefwyr eraill ofyn am wybodaeth drwy linell gymorth benodol. Bydd hyn yn rhoi hyder i ddioddefwyr ynghylch y llwybrau sydd ar gael i gael gwybodaeth am gamau rhyddhau eu troseddwr. Bydd y newidiadau gofynnol i'r Cod ar waith ar ôl i'r mesurau hyn ddechrau.

# Cwestiynau

**Cwestiwn 4H**: A ydych chi'n cytuno y dylid cynnig cyfleoedd eraill i ddioddefwyr ymuno'n rhagweithiol â'r Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr, os ydynt yn gymwys? [Ydw/Nac ydw] Esboniwch eich ateb.

**Cwestiwn 4I:** Ar ba bwynt(iau) ydych chi'n meddwl y gellid gwneud y cynnig hwn i ddioddefwyr (y tu allan i'r amgylchiadau lle mae'r risg wedi cynyddu i'r dioddefwr, neu lle mae proffil yr achos yn uchel)?

**Cwestiwn 4J:** A ydych chi'n cytuno y dylai'r dioddefwr orfod cydsynio i rywun gysylltu â nhw yn y dyfodol os byddant yn gwrthod ymuno â'r Cynllun (y tu allan i'r amgylchiadau lle mae'r risg wedi cynyddu i'r dioddefwr, neu lle mae proffil yr achos yn uchel)? [Ydw/Nac ydw] Esboniwch eich ateb.

# Lleisiau dioddefwyr mewn achosion parôl

Rydym wedi diweddaru'r Cod i adlewyrchu'r hawl newydd i rai dioddefwyr ofyn am gael arsylwi ar wrandawiad parôl, a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2025.

Ar hyn o bryd, gall dioddefwyr gymryd rhan yn yr achosion hyn drwy wneud Datganiad o Effaith ar Ddioddefwyr, fel y nodir uchod. Mae'r rhain yn caniatáu i'r Bwrdd Parôl ddeall effaith y drosedd, archwilio dealltwriaeth y carcharor o'i weithredoedd, a bod yn sail i amodau trwydded pan fydd penderfyniad i ryddhau'r troseddwr. Mae penderfyniad y Bwrdd ynghylch a ddylid rhyddhau'r troseddwr yn seiliedig ar a yw'r prawf cyfreithiol ar gyfer rhyddhau wedi'i fodloni, sef a oes angen i'r troseddwr aros yn y ddalfa er mwyn diogelu'r cyhoedd. Bydd yr asesiad risg hwn yn seiliedig ar adroddiadau gan staff prawf perthnasol, ac mewn rhai achosion, seicolegwyr. Ni all y penderfyniad hwnnw ystyried barn y dioddefwr ynghylch a ddylid rhyddhau'r troseddwr.

Rydym eisiau casglu barn ynghylch a allai fod ffordd i ddioddefwyr fynegi eu barn am ryddhau troseddwr. Efallai y bydd rhai dioddefwyr yn dymuno gwneud hynny, ni waeth a oes modd i'r Bwrdd Parôl ystyried y rhain yn ffurfiol. I eraill, efallai na fydd yr amser a'r ymdrech i gyflwyno unrhyw safbwyntiau yn fuddiol os na allant ddylanwadu ar y penderfyniad.

**Cwestiwn 4K:** A ydych chi'n credu y dylid cyflwyno ffordd i ddioddefwyr fynegi eu barn am ryddhau troseddwr, gan gydnabod na all hyn gael effaith ar benderfyniad y Bwrdd Parôl i ryddhau? [Ydw/Nac ydw] Esboniwch eich ateb.

**Cwestiwn 4L:** Rhowch eich barn ynghylch sut allai dioddefwyr fynegi eu barn am ryddhau troseddwr pan fydd y Bwrdd Parôl yn penderfynu ar hynny.

# Pennod 5 – Helpu dioddefwyr i ddeall eu hawliau o dan y Cod

## Trosolwg

Rydym am sicrhau bod dioddefwyr yn ymwybodol o'u hawliau o dan y Cod ac yn gallu eu deall. Mae hyn yn hanfodol i sicrhau bod dioddefwyr yn deall y cymorth sydd ar gael iddynt ac i roi hyder iddynt yn y broses cyfiawnder troseddol. Fodd bynnag, gwyddom fod ymwybyddiaeth o'r Cod yn isel, gydag Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr yn dangos mai dim ond 18% o'r ymatebwyr oedd yn gwybod am y Cod.[14] Rhaid i'r Cod weithio i lawer o wahanol gynulleidfaoedd ac ni fydd pob rhan o'r Cod yn berthnasol i bob dioddefwr, felly mae deunyddiau neu offer y tu allan i'r Cod yn bwysig i helpu dioddefwyr i ymgysylltu â'i gynnwys.

Yn y bennod hon, rydym yn nodi'r camau rydym wedi'u cymryd i wella ymwybyddiaeth a hygyrchedd y Cod hyd yma, ac rydym yn gofyn am safbwyntiau ynghylch beth arall y gallwn ei wneud i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r Cod, a helpu i wneud y broses yn haws i ddioddefwyr. Bydd hyn yn helpu i lywio'r canllawiau sydd ar y gweill ar gyfer asiantaethau cyfiawnder troseddol a fydd o dan ddyletswydd statudol i hybu ymwybyddiaeth o'r Cod ymysg y cyhoedd, dioddefwyr a'r rheini sy'n cefnogi dioddefwyr (yn amodol ar weithredu Adran 6 o Ddeddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024).

Rydym yn gofyn am farn ynghylch pryd y dylid rhoi gwybod i ddioddefwyr am y Cod a pha ddeunyddiau safonol allai helpu i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r Cod. Rydym hefyd yn gofyn yn benodol am safbwyntiau ar y mathau o ddeunyddiau, cynnwys a llwyfannau a fyddai'n helpu dioddefwyr sy'n blant i gynyddu eu dealltwriaeth o'u hawliau o dan y Cod.

Ym mis Ionawr 2025, lansiodd y Llywodraeth ymgyrch Cod Dioddefwyr 'Deall eich Hawliau' gyda'r nod o godi ymwybyddiaeth o'r Cod Dioddefwyr. Mae'r ymgyrch yn cyfeirio pobl at wefan Gwybodaeth i Ddioddefwyr a Thystion, lle mae hawliau dioddefwyr yn cael eu hegluro'n glir.[15] Bydd ail don o'r ymgyrch yn cael ei lansio ddechrau 2026, gyda'r nod o gyrraedd dioddefwyr agored i niwed ar yr adeg fwyaf effeithiol.

[14] https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/adhocs/2605crimesurveyforenglandandwalescsewperceptionsofthecriminaljusticesystemandawarenessofthecodeofpracticeforvictimsofcrimepeopleaged16andoverenglandandwalesyearendingmarch2009toyearendingmarch2024

[15] https://victimandwitnessinformation.org.uk/your-rights/as-a-victim

Rydym yn deall bod gwneud y Cod Dioddefwyr yn hygyrch yn golygu bod rhaid sicrhau ei fod yn darparu ar gyfer dioddefwyr nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf ac ar gyfer dioddefwyr sydd ag anghenion ychwanegol, fel anableddau dysgu. Mae'r Cod Dioddefwyr felly ar gael mewn print bras, fformat hawdd ei ddarllen, yn ogystal â bod yn gydnaws â thechnoleg darllen sgrin. Rydym hefyd wedi cynhyrchu cyfieithiad o'r Cod Dioddefwyr i Iaith Arwyddion Prydain a chyfieithiadau i'r 15 iaith a siaredir yn fwyaf cyffredin yng Nghymru a Lloegr.[16]

Rydym yn cydnabod bod y Cod ei hun yn ddogfen hir ac y gall fod yn anodd i ddioddefwyr ei defnyddio i ddod o hyd i wybodaeth sy'n berthnasol iddynt, yn dibynnu ar eu hamgylchiadau a chynnydd yr achos. Mae'r wefan Gwybodaeth i Ddioddefwyr a Thystion yn rhoi trosolwg defnyddiol o'r Cod ac yn cyfeirio dioddefwyr at wybodaeth dan bob hawl ac at fersiynau eraill o'r Cod, fel cyfieithiad Iaith Arwyddion Prydain.

# Pryd a sut y rhoddir gwybod i ddioddefwyr am y Cod

Mae'r Heddlu'n rhoi gwybodaeth am y Cod i ddioddefwyr o fewn 5 diwrnod i roi gwybod am y drosedd (hawl 3). Rydym o'r farn efallai na fydd llawer o ddioddefwyr yn cofio hyn yn ystod eu cyswllt cyntaf nac yn sylwi ar yr wybodaeth pan gaiff ei darparu dros e-bost neu drwy neges destun. Rydym yn cynnig gofyniad newydd, sef i'r heddlu roi gwybod i ddioddefwyr am y Cod ar dri phwynt gwahanol pellach. Byddai hyn yn cael ei wneud ar yr un adegau ag y mae anghenion y dioddefwr yn cael eu (hail)asesu (fel y nodir ym Mhennod 2). Credwn y bydd y dull hwn yn golygu bod dioddefwyr yn cael gwybod mewn ffordd ystyriol yn hytrach na dull 'ticio blychau', nad yw'n effeithiol yn aml.

Mae gan asiantaethau cyfiawnder troseddol eisoes rai deunyddiau safonol a ffyrdd o gyfathrebu am y Cod, llawer ohono ar-lein. Lle mae cyfarfod wyneb yn wyneb yn digwydd, rydym yn ceisio gosod gofyniad newydd ar yr heddlu i gynnig cynnyrch ffisegol safonol sy'n egluro'r Cod i ddioddefwyr. Mae gennym ddiddordeb mewn clywed barn am y gofyniad newydd hwn a beth allai'r cynnyrch safonol fod. Gallai'r cynnyrch/cynhyrchion gynnwys y canlynol:

1. Cerdyn busnes gyda chod QR a dolen i dudalen we'r Cod. Gallai dioddefwyr gymryd y cerdyn ffisegol neu sganio'r cod QR: https://assets.publishing.service.gov.uk/media/6978a02f75d4437096552004/Victims_Code_Card.pdf
2. Fersiwn digidol o gerdyn busnes – gallai'r heddlu ei gynnwys mewn cyfathrebiadau digidol i ddioddefwyr pan fyddant yn rhoi gwybod am y drosedd ar-lein.

[16] https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/culturalidentity/language/bulletins/language englandandwales/census2021

3. Taflen A5 yn nodi penawdau pob un o hawliau'r Cod. Byddai hyn yn rhoi mwy o fanylion i'r dioddefwr ymlaen llaw: https://assets.publishing.service.gov.uk/media/6978a016316fd8f801552006/Victims_Code_Leaflet.pdf

# Cwestiynau

**Cwestiwn 5A:** Beth yw eich barn chi am fynnu bod dioddefwyr yn cael gwybod am y Cod pan fyddant yn rhoi gwybod am y drosedd, a phan fydd eu hanghenion yn cael eu hasesu/ailasesu?

**Cwestiwn 5B:** Beth yw eich barn chi am y gofyniad newydd i'r heddlu gynnig deunyddiau ffisegol neu ddigidol safonol sy'n ymdrin â'r Cod i ddioddefwyr?

**Cwestiwn 5C:** A ydych chi'n meddwl y byddai'r deunyddiau arfaethedig yn helpu i wella ymwybyddiaeth dioddefwyr o'r Cod?

# Ymwybyddiaeth a hygyrchedd y Cod i blant

Rydym yn gwybod bod yn rhaid i'r Cod weithio ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd, ac rydym yn cydnabod y bydd plant yn ymgysylltu'n fwy â gwahanol fathau o ddeunyddiau, cynnwys a llwyfannau o'i gymharu ag oedolion. Gwyddom fod deunyddiau sy'n hygyrch i blant wedi cael eu cynhyrchu i egluro pynciau cymhleth i blant mewn cyd-destunau eraill, fel deunyddiau sy'n egluro etholiadau cyffredinol.[17]

Mae gennym ddiddordeb mewn clywed eich barn am y fformatau a'r mathau o ddeunyddiau y mae plant yn fwyaf tebygol o ymgysylltu â nhw, yn ogystal â pha gynnwys dylai gael sylw ganddynt. Rydym yn agored i arloesi digidol yma a byddem yn croesawu'n arbennig safbwyntiau ynghylch lle dylid cadw'r wybodaeth hon i gynyddu ymgysylltiad gan blant.

[17] https://www.childrenscommissioner.gov.uk/resource/what-is-a-general-election-a-resource-for-children-and-young-people/

**Cwestiwn 5D:** Yn eich barn chi, pa ddeunyddiau a fyddai'n helpu plant i ymgysylltu â'r Cod (er enghraifft, fideo)?

**Cwestiwn 5E:** Pa wybodaeth am y broses cyfiawnder troseddol y gallem ei chynnwys i gefnogi plant i ddeall y Cod?

**Cwestiwn 5F:** Ble gellid cadw'r wybodaeth hon ar gyfer plant (er enghraifft, ar www.gov.uk)?

**Cwestiwn 5G:** Pa offer digidol a chamau arloesi allai helpu i wella hygyrchedd y Cod i blant?

# Pennod 6 – Gwybodaeth ychwanegol

# Trosolwg

Mae sawl maes lle mae'r Cod newydd yn darparu gwybodaeth ychwanegol, er enghraifft, adlewyrchu diweddariadau gweithredol, deddfwriaeth newydd neu wneud y Cod yn gliriach i ddioddefwyr ac asiantaethau cyfiawnder troseddol. Mae hyn yn cynnwys aildrefnu rhywfaint o gynnwys y Cod i sicrhau ei fod yn gydlynol, a bod gwybodaeth yn cael ei nodi o dan hawliau perthnasol. Yn y bennod hon, rydym yn gofyn am unrhyw adborth sydd gennych ar yr wybodaeth ychwanegol hon.

## Crynodeb o wybodaeth ychwanegol

### Pwy sy'n 'ddioddefwr' dan y Cod hwn? (tudalennau 4–7)

- **Diffiniad wedi'i ddiweddaru o ddioddefwr trosedd.** Rydym wedi adlewyrchu'r diffiniad o Adran 1 o Ddeddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024. Rydym wedi nodi sut mae hawliau'r Cod yn berthnasol i'r gwahanol garfannau. Rydym hefyd wedi bod yn glir bod y diffiniad o ddioddefwr yn cynnwys dioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol troseddol a'r rheini sydd wedi cael eu hecsbloetio i gyflawni ymddygiad troseddol. Mae gan y dioddefwyr hyn hawl, yn ddigon teg, i ddisgwyl derbyn y gwasanaethau yn y Cod.
- **Troseddau digyswllt.** Rydym wedi egluro, lle nad yw dioddefwr yn ymwybodol o'r drosedd pan gaiff ei chyflawni, ei fod, serch hynny, yn ddioddefwr at ddibenion y Cod cyn gynted ag y daw'n ymwybodol o'r drosedd.

### Pwy sy'n gyfrifol am roi gwybod am yr Hawliau dan y Cod hwn? (tudalennau 11–13)

- Egluro y dylai pob darparwr gwasanaeth weithio gyda'i gilydd i hwyluso mynediad at hawliau'r Cod nad ydynt yn uniongyrchol gyfrifol am eu hwyluso a / neu eu cyflawni. Er enghraifft, lle mae dioddefwr yn bwrw dedfryd o garchar.

### Hawl 1 (tudalen 15)

- **Yr hawl i ofyn am ryw a rhywedd cyfieithwyr ar y pryd.** Rydym wedi cynnwys yr hawl i ddioddefwyr trais rhywiol, trais ar sail rhywedd neu gam-drin domestig ofyn am gyfieithydd ar y pryd o'r rhyw a'r rhywedd o'u dewis. Rhaid darparu ar gyfer y rhain, lle bo hynny'n rhesymol ymarferol.

### Hawl 2 (tudalen 18)

- **Yr hawl i ofyn am ryw a rhywedd swyddogion heddlu sy'n cyfweld.** Rydym wedi diwygio hwn i egluro unrhyw gamddealltwriaeth na allai dioddefwyr fynegi dewis mewn

perthynas â rhyw fiolegol eu cyfwelydd. Rydym hefyd wedi egluro achosion lle nad yw'n rhesymol i'r heddlu fodloni'r cais, drwy gynnwys lle gallai oedi oherwydd argaeledd effeithio ar y ffordd y mae'r achos yn cael ei drin yn briodol.

**Hawl 5 (tudalennau 25–28)**

- **Iawndal.** Rydym wedi cynnwys diweddariadau i adlewyrchu rhagor o wybodaeth am iawndal dan orchymyn llys, datblygiadau digidol yn y Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol, y Cynllun Dioddefwyr Terfysgaeth Tramor a llwybrau iawndal ar gyfer dioddefwyr twyll a throseddau ariannol.

**Hawl 6 (tudalennau 32–33)**

- Egluro a darparu rhagor o wybodaeth am **Gynlluniau Hawl Dioddefwyr i Adolygiad** a sut maent yn gweithio ochr yn ochr â llwybrau cwyno lle nad yw penderfyniad yn gymwys o dan Gynllun.

**Hawl 7 (tudalen 34)**

- **Lle nad yw'n ymarferol yn weithredol i ddarparu'r cyfle i bob dioddefwr mewn achos wneud Datganiad Effaith ar Ddioddefwyr.** Gall hyn ddigwydd mewn achosion lle mae'r Swyddfa Twyll Difrifol, er enghraifft, yn erlyn twyll buddsoddi ar raddfa fawr gyda channoedd o ddioddefwyr. Rydym wedi ychwanegu troednodyn i ganiatáu asesu effaith drwy gyfran o ddioddefwyr mewn achosion o'r fath. Er enghraifft, efallai y byddant yn gofyn i ddioddefwyr sy'n darparu datganiad tyst roi Datganiad Effaith ar Ddioddefwyr, ond nid i'r rhai nad ydynt yn darparu datganiad tyst.

**Hawl 8 (tudalen 40)**

- **Cyfarfodydd cyn-treial gyda Gwasanaeth Erlyn y Goron.** Mae'r Cod bellach yn adlewyrchu hawl newydd i oedolion sy'n ddioddefwyr treisio a throseddau rhywiol difrifol gael cynnig cyfarfod gyda'r tîm erlyn cyn iddynt roi tystiolaeth. Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron hefyd wedi cyflwyno Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr newydd[18] i ddarparu un pwynt cyswllt penodol yng Ngwasanaeth Erlyn y Goron ar gyfer y dioddefwyr hyn. Byddwn yn cynnwys gwybodaeth am y mesur hwn mewn fersiwn o'r Cod yn y dyfodol yn amodol ar ganlyniad gwerthusiad annibynnol o'r rolau newydd hyn, sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd.

**Hawl 9 (tudalennau 42 a 43)**

- **Gwasanaethau cyfiawnder adferol.** Clywsom y gallai rhoi gwybodaeth i ddioddefwyr am wasanaethau cyfiawnder adferol wrth roi gwybod i'r heddlu am drosedd fod yn rhy

[18] Mae Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr Gwasanaeth Erlyn y Goron yn wahanol i'r Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr a ddarperir gan HMPPS fel rhan o'r Cynllun Cysylltu â Dioddefwyr

gynnar.[19] Rydym wedi cadw'r hawl hon gan ein bod yn gwybod y gall fod yn effeithiol yn gynnar mewn rhai achosion, ond rydym wedi ychwanegu hawl i gael gwybod am gyfiawnder adferol a gwasanaethau cymorth eraill eto ar ôl i droseddwr gael ei ddyfarnu'n euog (Hawl 9).

- Rydym yn defnyddio'r Bil Dioddefwyr a Llysoedd i ddiwygio'r Cynllun Dedfrydu Rhy Drugarog drwy newid yr amserlenni i'r Twrnai Cyffredinol wneud yr atgyfeiriad i'r Llys Apêl. Mae hyn ond yn berthnasol pan fydd y Twrnai Cyffredinol wedi derbyn cais o fewn 14 diwrnod diwethaf y cyfnod 28 diwrnod. Bydd hyn yn cael ei adlewyrchu yn y Cod ar ôl iddo ddod i rym.

### Hawl 10 (tudalen 47)

- **Treuliau.** Rydym wedi egluro y gallai treuliau fod ar gael i ddioddefwyr sy'n mynd i garchar am wrandawiad gan y bwrdd parôl ac y gall Gwasanaeth Erlyn y Goron dalu lwfansau a threuliau i bobl eraill sy'n cefnogi dioddefwyr yn y llys yn ôl eu disgresiwn.

### Hawl 12 (tudalen 57)

- Rydym wedi adlewyrchu'r ffaith nad oes rhaid **i gwynion am gyflawni'r Cod** Dioddefwyr i'r Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd gael eu cyfeirio mwyach drwy Aelod Seneddol (adran 27, Deddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024).

### Preifatrwydd data a datgelu (tudalennau 58–61)

- Rydym wedi ychwanegu adran newydd at y Cod i ymdrin â'r dyletswyddau statudol amrywiol sy'n ymwneud â sut mae data dioddefwyr yn cael ei gasglu a'i drin mewn achosion cyfiawnder troseddol. Mae hyn yn cynnwys:
  - Gwybodaeth am y **cyfreithiau newydd sy'n rheoli cytundebau peidio â datgelu** (Adran 17 o Ddeddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024), a fydd yn sicrhau na ellir gorfodi cytundebau peidio â datgelu sy'n ceisio atal dioddefwyr neu dystion ymddygiad troseddol, neu y rheini sy'n credu'n rhesymol eu bod yn ddioddefwyr neu'n dystion, rhag rhoi gwybod am drosedd, cydweithio â rheoleiddwyr, neu gael gafael ar gyngor a chymorth cyfrinachol.
  - Eglurder ar y prosesau ar gyfer **ceisiadau gwybodaeth am ddioddefwyr**, a all gynnwys ceisiadau am fynediad at gofnodion personol iawn fel nodiadau cwnsela (Mae Adrannau 28 i 31o Ddeddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024, sy'n ymwneud â'r prosesau hyn, yn dod i rym 12 Ionawr 2026.). Rydym yn deall bod y ceisiadau hyn wedi cael eu defnyddio'n anghymesur mewn rhai achosion o droseddau rhywiol a bydd y newidiadau deddfwriaethol hyn yn sicrhau y bydd craffu ar y broses o ofyn am wybodaeth o'r fath yn cael ei werthfawrogi.

[19] Mae cyfiawnder adferol yn broses wirfoddol sy'n caniatáu i ddioddefwyr a throseddwyr ddod at ei gilydd a datrys gyda'i gilydd sut i ddelio â chanlyniadau trosedd. Gall fod ar ffurf cyfryngu rhwng dioddefwyr a throseddwyr naill ai drwy gyswllt uniongyrchol neu drwy drydydd partïon.

- Rydym hefyd wedi ychwanegu gwybodaeth at Hawl 4 i'w gwneud yn glir i **ddioddefwyr nad oes unrhyw resymau da pam na all dioddefwyr gael therapi neu gwnsela cyn i dreial troseddol ddigwydd (**a elwir weithiau'n 'therapi cyn treial'), i sicrhau dioddefwyr i beidio ag oedi cyn cael gafael ar unrhyw gymorth therapiwtig y gallai fod ei angen arnynt wrth iddynt fynd drwy'r broses cyfiawnder troseddol.
- **Hawl dioddefwyr stelcio ac aflonyddu i wneud cais i ddileu data personol penodol** pan fyddant wedi bod yn destun honiadau di-sail gan eu cyflawnwr (yn amodol ar weithredu Adran 31 o Ddeddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024).

**Rhagor o wybodaeth (tudalennau 62–64)**

- **Dioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol.** Gwyddom fod angen deall y llwybrau amgen i gael cymorth ar gyfer y rheini sydd wedi dioddef ymddygiad gwrthgymdeithasol nad ydynt yn rhan o gylch gwaith y Cod, ac felly rydym wedi cynnwys gwybodaeth newydd sy'n cyfeirio at y broses adolygu achosion ymddygiad gwrthgymdeithasol, sy'n dod ag asiantaethau lleol at ei gilydd i archwilio atebion amgen.
- **Dioddefwyr lladdiad dramor.** Rydym wedi egluro yn y Cod newydd lle gall teuluoedd sydd wedi cael profedigaeth oherwydd llofruddiaeth neu ddynladdiad dramor gael gafael ar wybodaeth am y cymorth sydd ar gael iddynt, a nodi'n glir yr hawl bwysig iddynt gael gafael ar gymorth yma. Rydym hefyd yn gweithio ar ddatblygu canllawiau ychwanegol ar y cyd â Chyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu, y Swyddfa Gartref, yr FCDO a'r Comisiynydd Dioddefwyr i'w gwneud yn gliriach pa gymorth a allai fod ar gael i deuluoedd mewn profedigaeth oherwydd lladdiad dramor, ar gael yn: **https://www.gov.uk/government/publications/murder-and-manslaughter-abroad-family-information-guide/murder-and-manslaughter-abroad-family-information-guide-for-england-and-wales**
- Gwybodaeth am Adolygiadau Dynladdiad Domestig, a elwir bellach yn Adolygiadau o Farwolaethau sy'n Gysylltiedig â Cham-drin Domestig. Rydym wedi cynnwys gwybodaeth gyfeirio am y prosesau sydd ar gael lle mae dioddefwr wedi marw, neu'n ymddangos ei fod wedi marw, o ganlyniad i gam-drin domestig.
- **Bod yn gymwys i gael mesurau arbennig yn y llys teulu.** Rydym wedi cynnwys gwybodaeth sy'n egluro bod dioddefwyr cam-drin domestig yn awtomatig yn gymwys i wneud cais am fesurau arbennig yn y llys teulu, gan ein bod yn gwybod y gallai dioddefwyr fod yn ymwneud â'r ddwy system llys.

# Cwestiynau

**Cwestiwn 6A:** Rhowch unrhyw safbwyntiau sy'n ymwneud â'r wybodaeth ychwanegol hon yn y Cod. [Blwch testun rhydd ar gyfer unrhyw adborth]

**Cwestiwn 6B:** A oes unrhyw safbwyntiau eraill yr hoffech eu rhannu fel rhan o'r ymgynghoriad hwn nad ydynt wedi cael eu cofnodi drwy ymatebion i gwestiynau eraill? [Blwch testun rhydd ar gyfer unrhyw adborth].

# Ystyriaethau cydraddoldeb

Mae Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 – dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus – yn mynnu bod awdurdodau cyhoeddus yn rhoi sylw dyledus wrth arfer eu swyddogaethau i'r angen i wneud y canlynol:

- dileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi'i wahardd gan neu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- datblygu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig perthnasol a'r rheini nad ydynt yn eu rhannu
- meithrin cysylltiadau da rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu

Dylid defnyddio dull dadansoddi cydraddoldeb cymesur i ystyried effeithiau tebygol ar bobl sydd â nodweddion gwarchodedig, sef anabledd, hil, rhyw, ailbennu rhywedd, oed, crefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, priodas a phartneriaeth sifil.

Gwyddom fod modd i ni wneud rhagor i sicrhau bod yr holl ddioddefwyr yn cael cymorth o ansawdd da gan weithwyr proffesiynol ar draws y system. Mae ein cynigion wedi'u bwriadu i'w gwneud yn haws i'r holl ddioddefwyr gael y gefnogaeth a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt i gymryd rhan yn y broses cyfiawnder troseddol.

Rydym eisiau gwybod am effaith ein cynigion ar bobl sydd â nodweddion gwarchodedig. Gallwch ddarllen rhagor am yr ystyriaethau o ran cydraddoldeb yn yr ymgynghoriad hwn yn y datganiad cydraddoldeb.

Byddwn yn darparu asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb llawn mewn ymateb i'r ymgynghoriad a byddwn yn ystyried effaith lawn cynigion polisi ar ddioddefwyr a grwpiau eraill yr effeithir arnynt.

## Cwestiwn

**Cwestiwn 7:** A ydym wedi nodi'n gywir beth fydd graddau a gwahanol fathau'r effeithiau ar gydraddoldebau o dan yr ymgynghoriad hwn yn y Datganiad am Gydraddoldebau? Rhowch resymau a darparwch dystiolaeth am effeithiau ychwanegol ar gydraddoldebau sydd heb eu trafod, fel y bo'n briodol. [Blwch testun rhydd ar gyfer unrhyw adborth].

# Amdanoch chi

Rydym yn gofyn i chi ddarparu gwybodaeth amdanoch chi'ch hun yn yr adran hon.

Os nad ydych chi'n teimlo'n gyfforddus yn ateb y cwestiynau hyn, gallwch eu gadael yn wag.

| | |
|---|---|
| **Enw llawn** | |
| Teitl swydd neu ym mha rinwedd rydych yn ymateb i'r ymarfer ymgynghori hwn (e.e. aelod o'r cyhoedd) | • Academyddion<br>• Cymdeithasau<br>• Gweithiwr iechyd neu ofal cymdeithasol<br>• Ymarferwyr cyfiawnder troseddol<br>• Asiantaethau/adrannau'r Llywodraeth<br>• Aelod o'r cyhoedd<br>• Swyddfa Comisiynwyr Heddlu a Throseddu<br>• Heddluoedd<br>• Cyrff a mudiadau gwirfoddol<br>    • Os ydych chi, sut yw'r ffordd orau o ddisgrifio eich mudiad (e.e. cenedlaethol, lleol, cymunedol, 'gan ac ar gyfer')?<br>• Eiriolwr dioddefwyr<br>• Arall |
| Os ydych chi'n ymateb i'r ymarfer ymgynghori hwn fel aelod o'r cyhoedd, ydych chi wedi dioddef trosedd? | • Do<br>• Naddo |
| **Dyddiad** | |
| **Rhyw** | • Gwryw<br>• Benyw |
| **A yw'r rhywedd rydych chi'n uniaethu ag ef yr un fath â'ch rhyw a gofrestrwyd adeg eich geni?**<br><br>Mae'r cwestiwn hwn yn wirfoddol, felly gallwch ei adael yn wag os byddai'n well gennych. | • Ydy<br>• Nac ydy<br>• Os atebwch "Nac ydy", rhowch y term rydych chi'n ei ddefnyddio i ddisgrifio eich rhywedd. Mae hwn hefyd yn wirfoddol, felly gallwch ei adael yn wag os byddai'n well gennych. |

| | |
|---|---|
| **Ym mha ran o'r Deyrnas Unedig ydych chi?** | • Gogledd-ddwyrain Lloegr<br>• Gogledd-orllewin Lloegr<br>• Swydd Efrog/Glannau Humber<br>• Dwyrain Canolbarth Lloegr<br>• Gorllewin Canolbarth Lloegr<br>• Cymru<br>• East Anglia<br>• De-ddwyrain Lloegr<br>• De-orllewin Lloegr<br>• Llundain Fwyaf<br>• Yr Alban<br>• Gogledd Iwerddon<br>• Arall (rhowch fanylion)<br>• Mae'n well gen i beidio â dweud |
| **Oedran** | • O dan 18 oed<br>• 18–24<br>• 25–34<br>• 35–44<br>• 45–54<br>• 55–64<br>• Dros 65 oed<br>• Mae'n well gen i beidio â dweud |
| **Ethnigrwydd** | **Gwyn**<br>• Cymreig, Seisnig, Albanaidd, Gwyddelig Gogledd Iwerddon neu Brydeinig<br>• Gwyddelig<br>• Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig<br>• Unrhyw gefndir Gwyn arall<br>**Grwpiau cymysg neu aml-ethnig**<br>• Gwyn a Du Caribïaidd<br>• Gwyn a Du Affricanaidd<br>• Gwyn ac Asiaidd<br>• Unrhyw gefndir cymysg neu aml-ethnig arall<br>**Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig**<br>• Indiaidd<br>• Pacistanaidd<br>• Bangladeshaidd<br>• Tsieineaidd |

| | |
|---|---|
| | • Unrhyw gefndir Asiaidd arall<br>**Du, Affricanaidd, Caribïaidd neu Ddu Prydeinig**<br>• Affricanaidd<br>• Caribïaidd<br>• Unrhyw gefndir Du, Affricanaidd neu Garibïaidd arall<br>**Grŵp ethnig arall**<br>• Arabaidd<br>• Unrhyw grŵp ethnig arall<br>• Mae'n well gen i beidio â dweud |
| **Ydych chi'n rhan o grŵp crefyddol?** | • Dim crefydd<br>• Cristion<br>• Bwdhydd<br>• Hindŵ<br>• Iddew<br>• Mwslim<br>• Sikh<br>• Unrhyw grefydd arall<br>• Mae'n well gen i beidio â dweud |
| **Sut byddech chi'n disgrifio eich cyfeiriadedd rhywiol?** | • Heterorywiol neu strêt<br>• Hoyw neu lesbiaidd<br>• Deurywiol<br>• Arall<br>• Ddim yn gwybod/Mae'n well gen i beidio â dweud |
| **Oes gennych chi anabledd?** | • Oes<br>• Nac oes |
| **Ydych chi'n briod neu mewn partneriaeth sifil?** | • Ydw<br>• Nac ydw |
| Enw'r cwmni/sefydliad (os yw'n berthnasol): | |
| Os hoffech chi i ni gydnabod ein bod wedi derbyn eich ymateb, ticiwch y blwch hwn | ☐<br>(Ticiwch y blwch) |
| Y cyfeiriad i anfon y gydnabyddiaeth iddo, os yw'n wahanol i'r uchod | |

**Os ydych chi'n cynrychioli grŵp,** rhowch enw'r grŵp hwnnw i ni, a rhowch ddisgrifiad cryno o'r bobl neu'r sefydliadau rydych yn eu cynrychioli.

# Manylion cyswllt/Sut mae ymateb

Anfonwch eich ymateb erbyn 30/04/2026 i'r cyfeiriad canlynol:

**Victim and Witness Policy and Strategy Team**
Ministry of Justice
Victims, Vulnerabilities and Criminal Law Directorate
102 Petty France
London SW1H 9AJ

**E-bost**: victims.code@justice.gov.uk

## Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych chi unrhyw gwynion neu sylwadau ynghylch y broses ymgynghori, dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder gan ddefnyddio'r cyfeiriad uchod.

## Copïau ychwanegol

Mae copïau papur ychwanegol o'r ymgynghoriad hwn ar gael o'r cyfeiriad hwn ac mae hefyd ar gael ar-lein yn https://consult.justice.gov.uk/.

Gallwch ofyn am fersiynau o'r cyhoeddiad hwn mewn fformatau eraill gan victims.code@justice.gov.uk

## Cyhoeddi'r ymateb

Cyhoeddir papur yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn maes o law. Bydd y papur ymateb ar gael ar-lein yn https://consult.justice.gov.uk/

## Grwpiau cynrychiadol

Gofynnir i grwpiau cynrychiadol roi disgrifiad cryno o'r bobl a'r sefydliadau maent yn eu cynrychioli pan fyddant yn ymateb.

# Cyfrinachedd

Gellir cyhoeddi gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i’r ymgynghoriad hwn, yn cynnwys gwybodaeth bersonol, neu ei datgelu yn unol â’r cyfundrefnau hawl i weld gwybodaeth. Y prif gyfundrefnau yw’r rheini yn Neddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 2018, Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data a’r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004.

Os ydych chi am i'r wybodaeth a ddarperir gennych gael ei chadw'n gyfrinachol, rhaid i ni eich atgoffa bod y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn cynnwys Cod Ymarfer statudol y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef sy'n ymwneud, ymhlith pethau eraill, ag ymrwymiadau cyfrinachedd. Oherwydd hyn, byddai'n fuddiol pe gallech esbonio wrthym pam eich bod yn credu bod yr wybodaeth a ddarparwyd gennych yn gyfrinachol. Os ydym yn derbyn cais i ddatgelu'r wybodaeth, rhoddwn ystyriaeth lawn i'ch esboniad, ond ni allwn addo y gellir cynnal cyfrinachedd dan bob amgylchiad. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG yn cael ei ystyried yn rhwymol ar y Weinyddiaeth ar ei ben ei hun.

Bydd y Weinyddiaeth yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data a, gan amlaf, bydd hyn yn golygu na chaiff eich data personol eu datgelu i drydydd partïon.

# Egwyddorion ymgynghori

Mae'r egwyddorion y dylai adrannau'r Llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill eu mabwysiadu er mwyn ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth wedi'u hamlinellu yn Egwyddorion Ymgynghori Swyddfa'r Cabinet 2018 sydd ar gael yma:

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/691383/Consultation_Principles__1_.pdf

E03303104

ISBN 978-1-5286-5463-0